



# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

2013 dccc 6

Nodiadau Esboniadol

# Mobile Homes (Wales) Act 2013

2013 anaw 6

Explanatory Notes

**£9.75**



# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

2013 dccc 6

Nodiadau Esboniadol

# Mobile Homes (Wales) Act 2013

2013 anaw 6

Explanatory Notes

# **DEDDF CARTREFI SYMUDOL (CYMRU) 2013**

---

## **NODIADAU ESBONIADOL**

### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Medi 2013 ac y rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol iddi ar 4 Tachwedd 2013. Paratowyd hwy gan Adran Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru ar ran Peter Black AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Ddeddf, er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y nodiadau hyn ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn ffurfio rhan ohoni. Ni fwriedir i'r Nodiadau hyn fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf, a phan nad oes angen disgrifiad neu sylw ar unrhyw adran neu ran o adran, ni roddir un.

### **CRYNODEB A CHEFNDIR**

2. Mae cartrefi symudol yn cael eu defnyddio gan eu perchnogion drwy gydol y flwyddyn fel eu prif breswylfa, a chyfeirir atynt yn gyffredin fel "cartrefi mewn parciau".
3. Mae'r gyfraith ynglŷn â thrwyddedu safleoedd carafannau a rheoleiddio meddiannaeth cartrefi symudol i'w chael mewn nifer o Ddeddfau Seneddol sydd wedi eu diwygio'n helaeth dros y 50 mlynedd diwethaf, yn enwedig Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960, Deddf Safleoedd Carafannau 1968 a Deddf Cartrefi Symudol 1983.
4. Diwygiwyd y Deddfau hyn mewn perthynas â Lloegr gan Ddeddf Cartrefi Symudol 2013, ac ailddatgenir hwy mewn perthynas â Chymru yn y Ddeddf hon (sef Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013), ond maent yn parhau'n gymwys i safleoedd carafannau gwyliau.
5. Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn ailddatgan ac yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru, ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r modd y rheolir ac y cynhelir safleoedd cartrefi symudol preswyl yng Nghymru.

# **MOBILE HOMES (WALES) ACT 2013**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **INTRODUCTION**

1. These Explanatory Notes are for the Mobile Homes (Wales) Act 2013 which was passed by the National Assembly for Wales on 25 September 2013 and received Royal Assent on 4 November 2013. They have been prepared by the Department of Housing and Regeneration of the Welsh Government on behalf of Peter Black AM, the Member in Charge of the Act in order to assist the reader of the Act. The notes need to be read in conjunction with the Act, but do not form part of it. The Notes are not intended to be a comprehensive description of the Act, and where a section or part of a section does not require any explanation or comment, none is given.

### **SUMMARY AND BACKGROUND**

2. Mobile homes are used by their owners all year round as their primary residence, and are commonly referred to as “park homes”.
3. The law relating to the licensing of caravan sites and regulating mobile home occupation is contained within numerous Acts of Parliament which have been amended substantially over the last 50 years, in particular the Caravan Sites and Control of Development Act 1960, the Caravan Sites Act 1968, and the Mobile Homes Act 1983.
4. These Acts have been amended in relation to England by the Mobile Homes Act 2013, and in relation to Wales, the Acts have been restated in this Act (the Mobile Homes (Wales) Act 2013) but they continue to apply to holiday caravan sites.
5. The Mobile Homes (Wales) Act 2013 restates and consolidates the legislation on mobile home sites in Wales, and makes provision in relation to how residential mobile home sites are managed and maintained in Wales.

6. Yn ogystal â chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth, mae'r Ddeddf hon yn galluogi awdurdod lleol i benodi rheolwr interim os bodlonir amodau penodol. Yn achos safle sydd heb drwydded, ceir gwneud cais i Dribiwnlys Eiddo Preswyl, sydd â'r pŵer i wneud gorchymyn (a elwir yn "orchymyn ad-dalu") sy'n gwneud yn ofynnol bod perchennog neu reolwr y safle yn talu i feddiannydd cartref symudol ba bynnag symiau a bennir yn y gorchymyn. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth newydd i'r perwyl bod rhaid i reolwyr safleoedd cartrefi symudol fod yn bersonau "addas a phriodol". Mae'r Ddeddf yn diddymu'r gofyniad bod prynwr cartref symudol (neu berson y trosglwyddwyd y cartref symudol iddo fel rhodd) yn cael ei gymeradwyo gan berchennog y safle ac yn gwneud darpariaethau newydd ynglŷn â gwerthiannau, rhoddion ac aseiniadau. Mae'r Ddeddf yn estyn cwmpas troseddau mewn cysylltiad ag amddiffyn meddianwyr rhag eu troi allan neu aflonyddu arnynt, cyfleu gwybodaeth ffug, etc. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gofynion newydd ynghylch rheolau safle ac yn darparu fframwaith ar gyfer tryloywder ynghylch adolygiadau o'r ffioedd am y lleiniau. Mae'r Ddeddf hefyd yn estyn diogelwch i breswylwyr ar safleoedd awdurdod lleol i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr.
7. Y rhesymeg polisi sy'n sail i'r Ddeddf yw ailddatgan a diweddarau'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chartrefi symudol a gwneud y system ar gyfer trwyddedu safleoedd yn fwy cyson â systemau trwyddedu eraill yr awdurdodau lleol. Achoswyd problemau yn y sector gan yr arfer o "flocio gwerthiant", ac mae'r Ddeddf yn diddymu'r cyfle i weithredwyr safleoedd rwystro perchnogion rhag gwerthu eu cartrefi symudol. Nod y Ddeddf yw gwella safonau yn y sector, sicrhau y diddymir y cyfle i rwystro gwerthu ac y cymerir camau gorfodi effeithiol yn erbyn y gweithredwyr hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau trwydded.

## **SYLWADAU AR ADRANNAU**

### **Rhan 1 - Cyflwyniad**

#### **Adran 1- Trosolwg o'r Ddeddf**

8. Mae'r adran hon yn crynhoi prif ddarpariaethau'r Ddeddf. Bwriedir i hon weithredu fel adran cyfeirio a chyflwyno 6 Rhan allweddol y Ddeddf.

#### **Adran 2 - Safleoedd cartrefi symudol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ac Adran 3 - Perchnogion safleoedd**

9. Mae'r adrannau hyn yn esbonio termau allweddol megis "safle rheoleiddiedig", "safle gwarchodedig" a "safle awdurdod lleol i Sipsiwn a Theithwyr".
10. "Safle rheoleiddiedig" yw safle yng Nghymru sydd ag o leiaf un cartref symudol wedi ei osod arno er mwyn i bobl fyw ynddo ac eithrio safle gwyliau (neu safle y darperir yn Atodlen 1 nad yw'n safle rheoleiddiedig).
11. Ystyr "safle gwarchodedig" yw tir sydd:
  - a. yn safle rheoleiddiedig, neu
  - b. unrhyw safle a fyddai'n safle rheoleiddiedig pe na bai awdurdod lleol yn ei feddiannu.

6. In addition to the consolidation of legislation, this Act enables a local authority to appoint an interim manager if certain conditions are met. Where a site is unlicensed, an application may be made to a Residential Property Tribunal who may make an order (known as a repayment order) requiring the owner or manager of the site to pay to the occupier of a mobile home such sums specified in the order. The Act makes new provision for a “fit and proper” person requirement for those who manage mobile home sites. The Act removes the requirement for site owners to approve a purchaser of a mobile home (or a person to whom a mobile home has been gifted) and makes new provisions for sales, gifts and assignments. The Act extends the scope of offences in respect of the protection of occupiers against eviction and harassment, false information etc. The Act introduces new requirements about site rules and provides a framework for transparency on pitch fee reviews. The Act also extends the protection of residents on local authority sites to Gypsies and Travellers.
7. The policy rationale for the Act is to restate and update the legislation relating to mobile homes and to bring the site licensing regime more closely in line with other local authority licensing regimes. The practice of “sale blocking” caused problems in the sector and removes the opportunity for site operators to ‘block’ sales of mobile homes. It is intended the Act will raise standards in the sector and ensure the opportunity for sale blocking is removed and effective enforcement action can be taken against those operators who fail to comply with their licence obligations.

## **COMMENTARY ON SECTIONS**

### **Part 1 – Introduction**

#### **Section 1- Overview of Act**

8. This section summarises the main provisions of the Act. It is intended to be a sign posting section and to introduce the 6 key Parts of the Act.

#### **Section 2 - Mobile home sites subject to Act and Section 3 - Owners of sites**

9. These sections explain key terms such as a “regulated site”, a “protected site” and a “local authority Gypsy and Traveller site”.
10. A “Regulated site” is a site in Wales which has at least one mobile home stationed on it for the purposes of human habitation other than a holiday site (or a site which Schedule 1 provides is not to be a regulated site).
11. “Protected Site” means land which is:
  - a. a regulated site, or
  - b. any site that would be a regulated site but is occupied by a local authority.

12. Er bod safleoedd gwyliau wedi eu heithrio o'r diffiniad o safle rheoleiddiedig yn y Ddeddf hon (ac felly nid yw'r system drwyddedu'n gymwys iddynt; nac ychwaith i gartref symudol a feddiennir gan berchennog safle, ei deulu neu ei asiantwyr / cyflogeion) mae'r adran hon yn ailddatgan y diffiniad o safle cartrefi gwyliau fel y'i pennwyd mewn Deddfau blaenorol. Diffinnir ystyr "perchennog" yn adran 3.

## **Rhan 2 - Trwyddedu Safleoedd Cartrefi Symudol etc**

### **Adran 5 - Gwahardd defnyddio tir fel safle rheoleiddiedig heb drwydded safle**

13. Mae adran 5 yn ailddatgan adran 1(1) a (2) o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 ("Deddf 1960"). Mae'n darparu bod defnyddio tir fel safle rheoleiddiedig heb drwydded safle yn drosedd, ond yn cynyddu'r ddirwy o lefel 4 i lefel 5 ar y raddfa safonol. Pan ddaw adran 85 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 i rym, bydd dirwy lefel 5 (sy'n £5000 ar hyn o bryd, sef Tachwedd 2013) yn dod yn ddirwy ddigyfyngiad.

### **Adran 6 - Gwneud cais am drwydded safle**

14. Mae'r adran hon yn efelychiad o adran 3 o Ddeddf 1960 gyda rhai ychwanegiadau. Mae'n pennu gofynion ar gyfer ceisiadau i awdurdodau lleol am drwyddedau safle. Mae is-adran (2) yn rhoi manylion o'r hyn y mae'n rhaid i gais ei gynnwys, ac is-adran (3) yn gwneud yn ofynnol bod ceiswyr yn darparu gwybodaeth y gofynnir amdani gan yr awdurdod lleol. O dan is-adran (4) rhaid i gais gael ei gyflwyno ynghyd â datganiad gan y ceisydd i'r perwyl bod y rheolwr (neu'r ceisydd) yn berson "addas a phriodol" i reoli'r safle. O dan is-adran (5), caiff awdurdod lleol wneud yn ofynnol cyflwyno cais ynghyd â ffi a bennir gan yr awdurdod lleol, ar yr amod bod yr awdurdod wedi cyhoeddi ei bolisi ar ffioedd (gweler y sylwadau ar adran 36).

### **Adran 7 - Dyroddi trwydded safle**

15. Mae adran 7 yn ailddatgan adran 3(3) i (6) ac adran 6 o Ddeddf 1960 Act, gyda rhai darpariaethau newydd. Mae'n pennu'r terfynau amser ar gyfer dyroddi trwydded. O dan is-adran (4), os yw awdurdod lleol yn penderfynu peidio â dyroddi trwydded, rhaid iddo hysbysu'r ymgeisydd o'r rhesymau dros y penderfyniad ac o hawl yr ymgeisydd i apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl.

### **Adran 8 - Parhad trwydded safle**

16. Mae adran 8 yn cymryd lle adran 4 o Ddeddf 1960. Mae adran 8 yn darparu y ceir dyroddi trwydded am gyfnod o hyd at bum mlynedd o'r dyddiad y daw'r drwydded yn weithredol, oni chaiff y drwydded ei dirymu.

### **Adran 9 - Pŵer i osod amodau ar drwydded safle**

17. Mae adran 9 yn ailddatgan adran 5 o Ddeddf 1960 gyda rhai newidiadau. Mae'n caniatáu i awdurdod lleol osod rhai mathau o amodau ar drwydded safle pan ddyroddir hi. Mae is-adran (2)(c) ac (f) yn gwneud darpariaethau ar gyfer amodau sy'n ymwneud â lleihau'r risg oherwydd llifogydd ac erydu'r arfordir, ac ar gyfer rhoi gwybod i breswylwyr tai symudol ar y safle am unrhyw risg o lifogydd neu erydu arfordirol sy'n hysbys.



12. Whilst holiday sites are excluded from the definition of a regulated site in this Act (and therefore the licensing regime does not apply; nor to a mobile home occupied by site owners, their family, or agents / employees) this section restates the definition of a holiday home site as set out in previous Acts. The meaning of “owner” is set out in section 3.

## **Part 2 - Licensing of Mobile Home Sites etc**

### **Section 5 - Prohibition on use of land as regulated site without site licence**

13. Section 5 restates section 1(1) and (2) of the Caravan Sites and Control of Development Act 1960 (“the 1960 Act”). It provides that using land as a regulated site without a site licence is an offence, but increases the fine from level 4 to level 5 on the standard scale. When section 85 of the Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012 comes into force a level 5 fine will become an unlimited fine (currently £5000 at November 2013).

### **Section 6 - Application for site licence**

14. This section is modelled on section 3 of the 1960 Act with some additions. It sets out requirements for site licence applications to local authorities. Subsection (2) provides details of what an application must contain and subsection (3) requires applicants to provide information requested by the local authority. Under subsection (4) an application must be accompanied by a declaration by the applicant that the manager (or applicant) is a “fit and proper” person to manage the site. Under subsection (5), a local authority may require an application to be accompanied by a fee fixed by the local authority, provided it has published its fees policy (see the commentary to section 36).

### **Section 7 - Issue of site licence**

15. Section 7 restates section 3(3) to (6) and section 6 of the 1960 Act, with some new provisions. It sets out the timescales for issuing a licence. In subsection (4), if a local authority decides not to issue a licence, they must notify the applicant of the reasons for the decision and of their right of appeal to a Residential Property Tribunal.

### **Section 8 - Duration of site licence**

16. Section 8 replaces section 4 of the 1960 Act. Section 8 provides that a licence may be issued for a period of up to five years from the date the licence comes into operation, unless it is revoked.

### **Section 9 - Power to attach conditions to site licence**

17. Section 9 restates section 5 of the 1960 Act with some changes. It allows a local authority to attach certain types of conditions when it issues a site licence. Subsection (2)(c) and (f) make provisions for conditions that relate to minimising risk from flooding and coastal erosion and for communicating any known risk from flooding or coastal erosion to mobile home residents on the site.



18. Mae is-adran (5) yn gwneud yn ofynnol bod trwydded safle'n cynnwys amod i'r perwyl bod rhaid arddangos copïau o'r biliau cyfleustod diweddaraf y safle mewn man amlwg ar y safle, ynghyd ag unrhyw dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol.
19. O dan yr adran hon caiff awdurdodau lleol wneud yn ofynnol cyflawni unrhyw waith ar safle cartrefi symudol er boddhad yr awdurdod lleol. Tra bo gwaith o'r fath yn mynd yn ei flaen, caiff yr awdurdod lleol wahardd neu gyfyngu ar symud cartrefi symudol i'r safle. Caiff yr awdurdod osod amod ynghlwm wrth y drwydded, i wneud yn ofynnol cwblhau'r gwaith angenrheidiol o fewn terfyn amser penodol.

#### **Adran 10 - Safonau enghreifftiol**

20. Mae adran 10 yn ailddatgan adran 5(6), (6A), (7) ac (8) o Ddeddf 1960. Mae Adran 10 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu, at ddibenion adran 9, safonau enghreifftiol mewn perthynas â chynllun y safle a'r ddarpariaeth o gyfleusterau, gwasanaethau ac offer ar safleoedd rheoleiddiedig.
21. Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r safonau enghreifftiol hyn wrth ystyried gosod amodau ar drwydded safle o dan adran 9 o'r Ddeddf.

#### **Adran 11 - Rhagofalon tân**

22. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 5(3A) i (3C) o Ddeddf 1960. Mae'n sicrhau bod rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub wrth ystyried pa amodau i'w gosod ar drwydded safle.

#### **Adran 12 - Apelio yn erbyn amodau trwydded safle**

23. Mae'r adran hon, i raddau helaeth, yn ailddatgan adran 7 o Ddeddf 1960. Mae'n pennu bod hawl gan y ceisydd i apelio at dribiwnlys eiddo preswyl yn erbyn unrhyw amod a osodir ar drwydded safle (ac eithrio'r amod o dan adran 9(5)). Os bydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl o'r farn bod yr amod yn rhy feichus, caiff amrywio neu ddiddymu'r amod, a chaiff osod amod newydd ar y drwydded safle.

#### **Adran 13 - Pŵer awdurdod lleol i amrywio amodau trwydded safle**

24. Mae'r adran hon yn pennu y caiff aiff awdurdod lleol amrywio'r amodau a osodwyd ar drwydded safle unrhyw bryd, ond cyn arfer y pŵer hwn rhaid i'r awdurdod lleol roi cyfle i ddeiliad y drwydded safle gyflwyno sylwadau. Mae modd amrywio hefyd os yw'r awdurdod lleol yn canfod gwybodaeth newydd neu o'r farn bod amgylchiadau wedi newid.
25. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff awdurdod lleol, pan fo deiliad trwydded yn gwneud cais i amrywio'r amodau sydd ynghlwm wrth drwydded safle, wneud yn ofynnol anfon y cais ynghyd â ffi,, sydd i'w phennu gan yr awdurdod lleol, ar yr amod bod yr awdurdod lleol wedi cyhoeddi ei bolisi ar ffioedd (gweler adran 36).

18. Subsection (5) requires that a site licence must contain a condition that copies of the most recent utility bills relating to the site and any current certificate of public liability insurance must be displayed in a prominent place on the site.
19. Local authorities may, under this section, require works to be completed on a mobile homes site to the satisfaction of the local authority. When such works are ongoing the local authority can prohibit or restrict the movement of mobile homes on to the site. The authority may attach a condition to the licence so as to require the completion of the necessary work, within a time limit.

### **Section 10 - Model standards**

20. Section 10 restates section 5(6), (6A), (7) and (8) of the 1960 Act. Section 10 allows the Welsh Ministers, to specify for the purposes of section 9 model standards with respect to the layout of the site and the provision of facilities, services and equipment for regulated sites.
21. A local authority must have regard to these model standards when they consider attaching conditions to a site licence under section 9 of the Act.

### **Section 11 - Fire precautions**

22. This section restates section 5(3A) to (3C) of the 1960 Act. It ensures that local authorities must consult the fire and rescue authority when they are considering conditions to attach to a site licence.

### **Section 12 - Appeal against conditions of site licence**

23. This section largely restates section 7 of the 1960 Act. It sets out the applicant's right of appeal to a Residential Property Tribunal against any condition that is attached to a site licence (other than the condition under section 9(5)). If the condition is deemed unduly burdensome, the Residential Property Tribunal may vary or cancel the condition and may attach a new condition to the site licence.

### **Section 13 - Power of local authority to vary conditions of site licence**

24. This section sets out that a local authority may vary the conditions attached to a site licence at any time, but before exercising this power a local authority must give the licence holder an opportunity to make representations. Variation is also possible where the local authority discovers new information or considers there has been a change of circumstances.
25. Subsection (4) provides that, where a licence holder makes an application to vary the conditions attached to a site licence, a local authority may require the application to be accompanied by a fee, fixed by the local authority, provided it has published its fees policy (see section 36).

#### **Adran 14 - Apelio yn erbyn amrywio amodau trwydded safle**

26. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 8(2) i (4) o Ddeddf 1960. Caiff deiliad trwydded apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl (llys ynadon gynt), yn erbyn unrhyw newid yn amodau'r drwydded neu unrhyw wrthodiad i amrywio'r amodau, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael yr hysbysiad o'r penderfyniad. Os yw'r amrywiad yn yr amodau yn ymwneud â chwblhau gwaith ar y safle, ni fydd yr amod amrywiedig yn cael effaith hyd nes bo'r amser a ganiateir ar gyfer gwneud apêl wedi dod i ben, neu unrhyw apêl yn erbyn yr amod wedi ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl.
27. Wrth arfer ei bwerau o dan is-adran (1), rhaid i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl roi sylw i unrhyw safonau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 10.

#### **Adran 15 - Torri amod**

28. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod lleol, pan fo perchennog tir yn methu neu wedi methu â chydymffurfio ag amod mewn trwydded safle, gyflwyno naill ai hysbysiad cosb benodedig neu hysbysiad cydymffurfio i berchennog y safle.
29. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r awdurdodau lleol ynghylch y materion y dylent eu hystyried wrth benderfynu a ddylid ymdrin a methiant i gydymffurfio ag amod mewn trwydded safle drwy roi hysbysiad cosb benodedig ynteu hysbysiad cydymffurfio. Rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir. Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei roi, ond heb ei dalu, caiff awdurdod lleol dynnu'n ôl yr hysbysiad cosb benodedig a dyroddi yn ei le hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'r un methiant. Caiff perchennog tir y cyflwynwyd hysbysiad cydymffurfio iddo apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl yn erbyn yr hysbysiad hwnnw o dan adran 17(2) (gweler adran 23).

#### **Adran 16 - Hysbysiad cosb benodedig**

30. Mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad cosb benodedig. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff y swm a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig fod yn uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol ar gyfer troseddau diannod (uchafswm o £200 yn Nhachwedd 2013), ac mae is-adran (3) yn pennu'r dull o dalu.

#### **Adran 17 - Hysbysiadau cydymffurfio**

31. Mae'r adran hon yn ymdrin â thorri amod trwydded safle. Mae'n darparu y caiff awdurdod lleol, os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol fod perchennog tir yn methu â chydymffurfio ag amod trwydded, gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r perchennog hwnnw, sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir yn is-adran (1), gan gynnwys y camau y mae'n rhaid i'r perchennog eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r amod trwydded.
32. Mae'r darpariaethau'n rhoi hawl i'r perchennog apelio yn erbyn yr hysbysiad cydymffurfio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl. Maent hefyd yn rhoi pŵer i'r awdurdod lleol ddirymu hysbysiad cydymffurfio neu ei amrywio drwy estyn y cyfnod o amser a bennir ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad. Gellir rhoi'r cyfryw estyniad fel ymateb i gais gan berchennog y tir y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo, neu ar ysgogiad yr awdurdod lleol ei hunan.

#### **Section 14 - Appeal against variations of conditions of site licence**

26. This section is restated from section 8(2) to (4) of the 1960 Act. A licence holder may appeal to the Residential Property Tribunal (formerly a magistrates' court), against any alteration of the conditions of the licence or any refusal to vary the conditions, within 28 days of receiving the notification of the decision. If the variation to the condition relates to carrying out of works to the site, the varied condition does not come into effect until the time for making an appeal has expired, or any appeal against it is disposed of or withdrawn.
27. In exercising its powers under subsection (1), the Residential Property Tribunal must have regard to any standards made by Welsh Ministers under section 10.

#### **Section 15 - Breach of condition**

28. This section provides that, where the owner of land is failing or has failed to comply with a site licence condition, a local authority may give the owner a fixed penalty notice or a compliance notice.
29. The Welsh Ministers may issue guidance to local authorities as to the considerations they should take into account when deciding whether to deal with a failure to comply with a condition of a site licence by issuing a fixed penalty notice or a compliance notice. The local authority must have regard to any guidance issued. Where a fixed penalty notice has been issued, but not paid, a local authority may withdraw the fixed penalty notice and instead issue a compliance notice in respect of the same failure. An owner of land served with a compliance notice may appeal to a Residential Property Tribunal against that notice under section 17(2) (see section 23).

#### **Section 16 - Fixed penalty notice**

30. This section sets out the information to be included in a fixed penalty notice. Subsection (2) provides that the amount specified in the fixed penalty notice must not exceed level 1 on the standard scale for summary offences (a maximum of £200 at November 2013) and subsection (3) sets out the method of payment.

#### **Section 17 - Compliance notices**

31. This section deals with the breach of a site licence condition. It provides that, where it appears to a local authority that an owner of land is failing to comply with a licence condition, the local authority may serve a compliance notice on that owner, which contains the information specified in subsection (1), including the steps that the owner must take to ensure that the licence condition is complied with.
32. The provisions provide the owner with a right of appeal against the compliance notice to a Residential Property Tribunal. They also provide the local authority with a power to revoke a compliance notice or to vary it by extending the time period specified for compliance with the notice. This extension can be given in response to an application made by the owner of land on whom the notice was served, or on the local authority's own initiative.

### **Adran 18 - Hysbysiad cydymffurfio: trosedd a cholffarnau lluosog**

33. Mae adran 18 yn pennu bod perchennog tir, y cyflwynwyd iddo hysbysiad cydymffurfio a ddaeth yn weithredol o dan adran 24, yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig.
34. Mae is-adran (2) yn pennu, pan fo person yn euog o'r drosedd, mai'r gosb yw dirwy (sef uchafswm o £5000 yn Nhachwedd 2013). Mae is-adran (3) yn caniatáu amddiffyniad os oedd gan y perchennog esgus rhesymol dros beidio â chymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig.
35. Mae'r is-adrannau (4) a (5) yn darparu, os oes gan berchennog safle ddwy neu ragor o gollfarnau am dorri hysbysiad cydymffurfio, y caiff awdurdod lleol wneud cais i'r llys (a gollfarnodd y perchennog) am ddirymu trwydded y safle.

### **Adran 19 - Hysbysiad cydymffurfio: pŵer i hawlio treuliau**

36. Mae adran 19 yn darparu pŵer i adennill treuliau pan fo hysbysiad cydymffurfio wedi ei gyflwyno o dan adran 17.
37. Pan fo awdurdod lleol yn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio i berchennog tir, caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar y perchennog fel modd i adennill treuliau a dynnwyd gan yr awdurdod lleol iddynt wrth benderfynu a ddylid cyflwyno'r hysbysiad ac wrth baratoi a chyflwyno'r hysbysiad neu'r hawliad am dreuliau. Gallai'r tâl ymwneud, er enghraifft, â'r gost o sicrhau cyngor cyfreithiol er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiad cydymffurfio ai peidio. Mae is-adran (2) yn egluro nad yw'r treuliau'n gyfyngedig i gyngor arbenigol. Caiff y tâl a godir gynnwys llog yn ogystal (gweler adran 25).
38. Caiff yr awdurdod lleol arfer ei bŵer i adennill treuliau drwy ddyroddi hawliad, sy'n nodi gwybodaeth am y treuliau fel a bennir yn adran 19(3) (a) i (c), yr un pryd ag y cyflwynir yr hysbysiad cydymffurfio.
39. Pan fo tribiwnlys yn caniatáu apêl yn erbyn y r hysbysiad cydymffurfio gwreiddiol (o dan adran 17) caiff wneud gorchymyn yr un pryd ynglŷn â'r hawliad am dreuliau a anfonwyd gyda'r hysbysiad; er enghraifft, gan gadarnhau neu ddileu'r tâl.

### **Adran 20 - Pŵer i gymryd camau ar ôl collfarnu'r perchennog**

40. Mae adran 20 yn darparu, pan fo perchennog safle wedi ei gollfarnu am y drosedd o beidio â chydymffurfio â'r camau a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio, y caiff yr awdurdod lleol a ddyroddodd yr hysbysiad gymryd y camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad cydymffurfio ac unrhyw gamau pellach a ystyria'n briodol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amod perthnasol.
41. Pan fo awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau o dan yr adran hon, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i berchennog y tir, sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 20(2) (a) i (e).

### **Section 18 - Compliance notice: offence and multiple convictions**

33. Section 18 sets out that an owner of land who has been served with a compliance notice, which has become operative under section 24, commits an offence if they fail to take the steps set out in the notice within the specified time period.
34. Subsection (2) sets out that where a person is guilty of the offence the penalty is a fine (a maximum of £5000 at November 2013). Subsection (3) allows a defence where the owner had a reasonable excuse for failing to take the steps set out in the notice within the time period specified.
35. Subsections (4) and (5) provide that, where an owner has two or more previous convictions for breach of a compliance notice, the local authority can make an application to the court (which convicted the owner) for the site licence to be revoked.

### **Section 19 - Compliance notice: power to demand expenses**

36. Section 19 provides a power to demand expenses where a compliance notice has been served under section 17.
37. Where a local authority serves a compliance notice on an owner of land, the local authority may impose a charge on the owner as a means of recovering the expenses incurred in deciding whether to serve the notice and in preparing and serving the notice or a demand for expenses. The charges could relate, for example, to the costs of obtaining legal advice in deciding whether or not to serve a compliance notice. Subsection (2) clarifies that the expenses are not limited to expert advice. The charges may include interest (see section 25).
38. A local authority exercises its power to recover expenses by issuing a demand, setting out the information about the charges specified in section 19(3)(a) to (c) when serving the compliance notice.
39. Where the tribunal allows an appeal against the underlying compliance notice (under section 17) it may also make an order about the expenses demand that accompanied the notice, for example to confirm or quash the charges.

### **Section 20 - Power to take action following conviction of owner**

40. Section 20 provides that where a site owner is convicted of an offence of failing to comply with the steps specified in a compliance notice, the local authority who issued the notice may take steps required by the compliance notice, and further action it considers appropriate to ensure the relevant condition is complied with.
41. Where a local authority proposes to take action under this section, it must serve a notice on the owner of the land which contains the information set out in section 20(2)(a) to (e).



42. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid cyflwyno'r hysbysiad yn ddigon cynnar cyn yr adeg y bwriedir mynd i mewn i'r safle er mwyn rhoi cyfnod rhesymol o rybudd i'r perchennog. Gan fod adran 32(2) yn gwneud yn ofynnol rhoi 24 awr o rybudd i'r perchennog cyn mynnu cael mynediad, 24 awr yw'r cyfnod byrraf o rybudd y caniateir ei roi.
43. Mae is-adran (4) yn darparu, pan fo awdurdod lleol yn awdurdodi person ac eithrio un o swyddogion yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran, y trinnir y person hwnnw fel pe bai'n swyddog awdurdodedig o dan adran 32(1). Caiff person o'r fath arfer hawl mynediad i'r tir.
44. Nid yw'r gofyniad i roi 24 o rybudd yn adran 32(2) yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â'r diwrnod pan fo'r awdurdod lleol yn bwriadu dechrau cymryd y camau ar y tir. Mae hyn yn golygu, os yw'r awdurdod yn bwriadu gwneud gwaith ar y tir a fydd yn cymryd mwy nag un diwrnod i'w gwblhau, na fydd angen rhoi 24 o rybudd cyn pob diwrnod y bwriadir mynd i mewn i'r safle.

### **Adran 21 - Pŵer i gymryd camau brys**

45. Mae adran 21 yn darparu pŵer i awdurdod lleol gymryd camau brys mewn rhai amgylchiadau.
46. Mae is-adran (2) yn pennu y caiff awdurdod lleol gymryd pa bynnag gamau sy'n angenrheidiol i ddileu risg sydd ar fin digwydd, o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson sydd, neu a all fod, ar y tir. O dan is-adrannau (3) i (5), pan fo awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau brys o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod gyflwyno hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth benodedig i'r perchennog. Caiff yr hysbysiad hwnnw ddatgan hefyd y byddai'r awdurdod lleol yn gwneud cais am warant o dan adran 32(3) pe gwrthodid mynediad i'r tir. Rhaid cyflwyno'r hysbysiad yn ddigon cynnar cyn yr adeg y bwriedir mynd i mewn, er mwyn rhoi rhybudd digonol i berchennog y tir.
47. Mae is-adran (6) yn darparu, pan fo awdurdod lleol yn awdurdodi person ac eithrio swyddog yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran, y trinnir y person hwnnw fel person awdurdodedig o dan adran 32(1) o'r Ddeddf.
48. Mae is-adran (7) yn pennu nad yw'r gofyniad yn adran 32(1) i arfer yr hawl mynediad "ar bob adeg resymol" yn gymwys, oherwydd gallai hynny fod yn amhriodol mewn sefyllfa o argyfwng. Nid yw'r gofyniad i roi 24 awr o rybudd o'r bwriad i fynd i mewn yn gymwys yma ychwaith. Mae is-adran (8) yn pennu bod rhaid i'r awdurdod lleol, o fewn 7 diwrnod ar ôl dechrau cymryd camau brys, gyflwyno hysbysiad pellach i'r perchennog, a fydd yn cynnwys gwybodaeth benodedig, gan gynnwys y rhesymau dros gymryd y camau ac esboniad o'r hawl i apelio.
49. Darperir i'r perchennog yr hawl i apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl yn erbyn y camau brys, naill ai ar y sail nad oedd risg ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch person a oedd, neu a allai fod, ar y tir, neu nad oedd (neu nad yw) y camau gan yr awdurdod lleol yn angenrheidiol er mwyn dileu risg o'r fath.



42. Subsection (3) provides that the notice must be served sufficiently in advance of the intended entry to the site as to give the owner reasonable notice. As Section 32(2) requires that 24 hours notice of an intended entry must be given to the owner, this would be the minimum amount of notice that could be given.
43. Subsection (4) provides that where a local authority authorises a person other than an officer of the local authority to take action on its behalf, this person is treated as being an authorised officer under section 32(1). Such a person will be able to exercise a right of entry to the land.
44. The 24 hour notice requirement in section 32(2) only applies in relation to the day on which the local authority intends to start taking action on the land. This means that, if a local authority carries out works which take more than one day, it will not need to provide 24 hours' notice before each day it intends to enter the site.

### **Section 21 - Power to take emergency action**

45. Section 21 provides a local authority with the power to take emergency action in certain situations.
46. Subsection (2) sets out that the local authority may take such action as is necessary to remove an imminent risk of serious harm to the health and safety of any person who is or may be on the land. Under subsections (3) to (5), where a local authority proposes to take emergency action under this section, the authority must serve a notice on the owner which contains certain specified information. This notice may also state that the local authority would apply for a warrant under section 32(3) if entry onto the land is refused. The notice must be served sufficiently in advance of the intended entry to give reasonable notice to the owner of the land.
47. Subsection (6) provides that where a local authority authorises a person other than an officer of the local authority to take action on its behalf, this person is treated as being an authorised officer under section 32(1) of the Act.
48. Subsection (7) sets out that the requirement in section 32(1) for the right of entry to be exercised "at all reasonable hours" does not apply, as this may not be appropriate in an emergency situation. The requirement for 24 hours notice of the intended entry also does not apply here. Subsection (8) sets out that the local authority must serve a further notice on the owner, within 7 days of starting to take emergency action, which contains certain specified information, including the reasons for the action and an explanation of the right of appeal.
49. The owner is provided with a right of appeal to a Residential Property Tribunal against the emergency action the grounds for which are that there was no risk of imminent serious harm to the health or safety of a person who is or may be on the land or that the action of the local authority was (or is) not necessary to remove such a risk.

### **Adran 22 - Camau o dan adran 20 neu 21: pŵer i hawlio**

50. Mae adran 22 yn rhoi i awdurdod lleol y pŵer i hawlio treuliau os cymerwyd camau o dan adran 20 neu 21.
51. Mae adran 22(1) yn darparu, pan fo awdurdod lleol wedi cymryd camau o dan adran 20 neu 21, y caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar y perchennog fel modd i adennill treuliau a dynnwyd ganddo wrth gymryd y camau a bennir ym mharagraffau (a) to (c).
52. Yn is-adrannau (4) a (5) pennir o fewn pa gyfnod o amser y ceir codi tâl am y costau a dynnwyd wrth gymryd camau brys, sy'n dibynnu ar pa un a ddygir apêl ai peidio.
53. Mae is-adran (6) yn pennu bod y pŵer i godi tâl yn arferadwy drwy gyflwyno i'r perchennog hawliad am y treuliau y mae'r awdurdod lleol yn ceisio'u hadennill, o fewn y cyfnod o amser a bennir yn is-adran (8).
54. Mae is-adran (7) yn darparu y caiff perchennog tir, y cyflwynir hawliad iddo o dan yr adran hon, apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl yn erbyn yr hawliad hwnnw.

### **Adran 23 - Apelio o dan adran 17, 21 neu 22**

55. Mae adran 23 yn ymddrin ag apelau a ddygir o dan adrannau 17, 21 neu 22.
56. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid gwneud unrhyw apêl a ddygir o dan yr adrannau hyn cyn diwedd cyfnod o 21 ddiwrnodau, sy'n dechrau gyda'r dyddiad y cyflwynwyd y ddogfen berthnasol (gweler adran 23(2)).
57. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Tribiwnlys Eiddo Preswyl ganiatáu gwneud apêl ar ôl diwedd y cyfnod apelio, os bodlonwyd y Tribiwnlys fod rheswm da dros yr oedi.
58. Bydd apêl a ddygir o dan yr adrannau hyn yn cael ei gynnal ar ffurf ail wrandawriad gan y tribiwnlys. Caiff ystyried materion na wyddai'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad ddim amdanynt. Mae is-adran (5) yn pennu'r pwerau sydd gan y tribiwnlys i wneud gorchmynion yn cadarnhau, amrywio neu ddiddymu'r mater sydd dan ystyriaeth.

### **Adran 24 - Pryd y daw hysbysiad cydymffurfio neu hawliad treuliau yn weithredol**

59. Mae'r adran hon yn pennu'r adeg y daw hysbysiad cydymffurfio neu hawliad treuliau yn weithredol.
60. O dan is-adran (2) os na ddygir apêl yn erbyn hysbysiad cydymffurfio o fewn y cyfnod apelio a bennir yn adran 17, bydd yr hysbysiad ac unrhyw hawliad treuliau o dan adran 19 a anfonwyd gyda'r hysbysiad ill dau'n dod yn weithredol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
61. Mae hawliad am dreuliau o dan adran 22 yn dod yn weithredol ar ddiwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer apêl, os na wneir apêl yn erbyn yr hawliad (gweler adran 24(3)).

**Section 22 - Action under section 20 or 21: power to demand expenses**

50. Section 22 provides a local authority with the power to demand expenses where action has been taken under section 20 or 21.
51. Section 22(1) provides that, where a local authority has taken action under section 20 or 21, it may impose a charge on the owner of the land as a means of recovering expenses incurred by them in taking the steps set out in paragraphs (a) to (c).
52. Subsections (4) and (5) set out the time when a charge may be imposed for the costs of emergency action, which is dependent upon whether an appeal is brought.
53. Subsection (6) sets out that the power to impose a charge is exercisable by serving on the owner a demand for the expenses that the local authority seeks to recover, in the time period specified in subsection (8).
54. Subsection (7) provides that an owner of land who is served with a demand under this section may appeal to a Residential Property Tribunal against this demand.

**Section 23 - Appeals under section 17, 21 or 22**

55. Section 23 deals with appeals brought under sections 17, 21 or 22.
56. Subsection (1) provides that an appeal brought under these sections must be made before the end of the period of 21 days, starting from the date the relevant document (see section 23(2)) was served.
57. Subsection (3) provides that a Residential Property Tribunal may allow an appeal to be made after the end of the appeal period, if satisfied that there is a good reason for the delay.
58. An appeal brought under these sections is to be by way of a rehearing of the Tribunal. It may consider matters of which the local authority who made the decision were unaware. Subsection (5) sets out the order-making powers of the tribunal to confirm, vary or quash the matter under consideration.

**Section 24 - When compliance notice or expenses demand becomes operative**

59. This section sets out when a compliance notice or expenses demand becomes operative.
60. Under subsection (2) where no appeal against a compliance notice is brought within the appeal period specified in section 17, both the notice and any accompanying demand for expenses under section 19 becomes operative at the end of that period.
61. A demand for expenses under section 22 becomes operative at the end of the period allowed for an appeal, when no appeal is made against it (section 24(3)).

62. Mae is-adrannau (4) i (6) yn ymdrin ag achosion pan ddygir apêl, ac yn pennu bod hysbysiad cydymffurfio (ac unrhyw hawliad o dan adran 19 a anfonir gydag ef) neu hawliad o dan adran 22 yn dod yn weithredol pan roddir penderfyniad ar yr apêl sy'n cadarnhau'r hysbysiad neu'r hawliad.

#### **Adran 25 - Adennill treuliau a hawlir o dan adran 19 neu 22**

63. Mae'r adran hon yn ymdrin ag adennill treuliau a hawlir o dan adran 19 neu 22.
64. Mae is-adran (1) yn darparu, o'r adeg y daw hawliad o dan adran 19 neu 22 yn weithredol, y codir llog ar y treuliau a bennir yn yr hawliad, ar gyfradd a bennir gan yr awdurdod lleol, hyd nes bo'r holl symiau sy'n ddyladwy o dan yr hawliad wedi eu hadennill.
65. Mae is-adran (2) yn darparu, o'r adeg y daw'r hawliad yn weithredol, y bydd y treuliau a'r llog yn arwystl ar y tir y mae'r hysbysiad cydymffurfio yn ymwneud ag ef hyd nes bo'r treuliau a'r llog wedi eu hadennill.
66. Mae is-adran (3) yn pennu bod yr arwystl yn cael effaith fel arwystl cyfreithiol sydd yn bridiant tir lleol.
67. Mae is-adran (4) yn pennu y caiff yr awdurdod lleol ddibynnu ar bwerau a rhwymedïau penodol a bennir yn Neddf Cyfraith Eiddo 1925 i orfodi'r arwystl, gan gynnwys penodi derbynydd. Mae is-adran (5) yn pennu pa bryd y ceir arfer y pŵer i benodi derbynydd.

#### **Adran 26 - Dirymu yn sgil marwolaeth, newid perchnogaeth neu roi'r gorau i ddefnyddio safle**

68. Mae adran 26 yn darparu y dirymir trwydded safle ar farwolaeth y deiliad trwydded, pan fo'r deiliad trwydded yn peidio â bod yn berchennog y tir neu pan fo'r tir a gwmpesir mewn trwydded yn peidio â chael ei ddefnyddio fel safle rheoleiddiedig.

#### **Adran 27 - Dyletswydd deiliad trwydded safle i ganiatáu i drwydded gael ei newid**

69. 62. Mae adran 27, i raddau helaeth, yn ailddatganiad o adran 11 o Ddeddf 1960 Act sy'n cynnwys dyletswydd ar y deiliad trwydded i ildio'r drwydded er mwyn cynnwys newid ynddi, pan ofynnir iddo wneud hynny gan yr awdurdod lleol a ddyroddodd y drwydded. Os methir â chydymffurfio â chais o dan yr adran hon heb esgus rhesymol, bydd deiliad y drwydded yn cyflawni trosedd a allai ysgogi na fydd yn uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol (uchafswm o £200 yn Nhachwedd 2013).

#### **Adran 28 - Gofyniad bod rhaid i reolwr safle fod yn berson addas a phriodol**

70. Mae adran 28 yn cyflwyno gofyniad newydd o fod yn "berson addas a phriodol", sy'n gymwys i berson sy'n rheoli safle rheoleiddiedig. Mae is-adran (1) yn pennu na chaiff perchennog tir ganiatáu i unrhyw ran o'r tir gael ei ddefnyddio fel safle rheoleiddiedig oni fodlonir yr awdurdod lleol fod naill ai'r perchennog neu berson a benodir gan y perchennog, neu gan yr awdurdod lleol (gyda chydsyniad y perchennog), yn berson addas a phriodol i reoli'r safle.

62. Subsections (4) to (6) deal with cases where an appeal is brought, and set out that a compliance notice (and any accompanying section 19 demand) or a demand under section 22 become operative when a decision on the appeal is given which confirms the notice or demand.

### **Section 25 - Recovery of expenses demanded under section 19 or 22**

63. This section deals with the recovery of expenses demanded under section 19 or 22.
64. Subsection (1) provides that, from the time when a demand under section 19 or 22 becomes operative, interest is charged on the expenses set out in the demand at a rate which is fixed by the local authority, until all sums due under the demand are recovered.
65. Subsection (2) provides that from the time the demand becomes operative, the expenses and interest are a charge on the land to which the compliance notice relates, until they are recovered.
66. Subsection (3) sets out that the charge takes effect as a legal charge which is a local land charge.
67. Subsection (4) sets out that the local authority can rely on certain powers and remedies set out in the Law of Property Act 1925 to enforce the charge, including the appointment of a receiver. Subsection (5) sets out when the power to appoint a receiver can be exercised.

### **Section 26 - Revocation on death, change of ownership or cessation of use**

68. Section 26 provides that a site licence is revoked upon the death of the licence holder, where the licence holder ceases to be the owner of the land or if the land covered by a licence ceases to be used as a regulated site.

### **Section 27 - Duty of licence holder to allow site licence to be altered**

69. Section 27 is largely a restatement of section 11 of the 1960 Act which contains a duty on the licence holder to surrender the licence for alteration when required to do so by the local authority who issued it. Failure without reasonable excuse to comply with a requirement under this section means the licence holder commits an offence which attracts a fine not exceeding level 1 on the standard scale (a maximum of £200 at November 2013).

### **Section 28 - Requirement for manager of site to be fit and proper person**

70. Section 28 introduces a new "fit and proper person" requirement that applies to a person who manages a regulated site. Subsection (1) sets out that the owner of land may not allow any part of the land to be used as a regulated site unless the local authority is satisfied either the owner or a person appointed by the owner, or by the local authority (with the owners' consent), is a fit and proper person to manage the site.

71. Mae isadran (2) yn darparu, pan fo perchennog tir yn caniatáu defnyddio safle yn groes i is-adran (1) heb berson addas a phriodol yn rheoli'r safle, y caiff yr awdurdod lleol wneud cais i Dribiwnlys Eiddo Preswyl am orchymyn yn dirymu trwydded y safle. Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu bod tramgwydd o'r fath yn drosedd a allai, yn dilyn collfarn ddiannod, ysgogi dirwy (sef hyd at uchafswm o £5,000 yn Nhachwedd 2013).
72. O dan is-adran (5), pan fo perchennog wedi ei gael yn euog o drosedd o dan is-adran (3) gan lys ynadon mewn perthynas â'r tir ar ddau neu ragor o achlysuron blaenorol, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys ynadon am orchymyn yn dirymu trwydded y safle.

### **Adran 29 - Penderfynu a yw person yn addas a phriodol**

73. Mae adran 29(1) yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol, wrth benderfynu a person yn "addas a phriodol" i reoli safle rheoleiddiedig, roi sylw i'r holl faterion a ystyria'n briodol, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth o'r mathau a restrir yn is-adran (3) neu (4). Er enghraifft, o dan is-adran (3), dylai awdurdod lleol ystyried a yw'r person wedi torri unrhyw ddarpariaeth o'r gyfraith mewn perthynas â thai (gan gynnwys cartrefi symudol) neu landlord a thenant.
74. O dan is-adran (4) haid i awdurdod lleol ystyried tystiolaeth bod unrhyw berson arall, sydd neu a fu gynt yn gysylltiedig a'r person, wedi gwneud unrhyw un o'r pethau a bennir yn is-adran (3), ac a yw'r dystiolaeth honno'n berthnasol i'r cwestiwn pa un a yw'r person ei hunan yn addas a phriodol i reoli'r safle rheoleiddiedig.
75. Mae is-adran (5) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio adran 29 er mwyn amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddi wrth wneud penderfyniad o dan yr adran hon.
76. Os wy awdurdod lleol yn penderfynu nad yw person yn berson addas a phriodol, rhaid iddo hysbysu'r person o'r rhesymau am y penderfyniad hwnnw ac o hawl y person i apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad.

### **Adran 30 - Penodi rheolwr interim**

77. Mae adran 30 yn caniatáu i awdurdod lleol benodi n rheolwr interim ar gyfer safle rheoleiddiedig os bodlonir yr amodau yn is-adran (2). Yr amodau yw fod yr awdurdod lleol o'r farn bod deiliad trwydded y safle yn methu neu wedi methu, yn ddifrifol neu nifer o weithiau, i gydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth drwydded y safle; nad yw'r safle'n cael ei reoli gan berson addas a phriodol; neu nad oes neb yn rheoli'r safle.
78. O dan is-adran (3) caiff cymdeithas trigolion gymwys (gweler adran 61) ofyn i'r awdurdod lleol ystyried arfer ei bwerau i benodi rheolwr interim. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, mewn amgylchiadau pan nad yw'r gymdeithas trigolion o'r farn bod rheolwr y safle yn berson addas a phriodol.



71. Subsection (2) provides that, where the owner of land allows a site to be used, but a fit and proper person is not managing the site, in contravention of subsection (1), the local authority may apply to a Residential Property Tribunal for an order revoking the site licence. Subsections (3) and (4) provide that such a contravention is an offence liable on summary conviction to a fine (a maximum of £5,000 at November 2013).
72. Under subsection (5), where an owner has been convicted of an offence under subsection (3) by a magistrates' court on two or more previous occasions in relation to the land, the local authority may apply to the magistrates' court to make an order revoking the site licence.

### **Section 29 - Decision whether person is fit and proper**

73. Section 29(1) provides that, in deciding whether a person is a "fit and proper person" to manage a regulated site, a local authority must have regard to all matters it considers appropriate, including any evidence of the kinds listed in subsection (3) or (4). For example, under subsection (3), a local authority should consider if the person has contravened any provision of the law relating to housing (including mobile homes) or landlord and tenant.
74. Under subsection (4) a local authority must consider evidence that anyone associated or formerly associated with the person has done any of the things set out in subsection (3) and whether that evidence is relevant to the question whether the person is a fit and proper person to manage the regulated site.
75. Subsection (5), allows the Welsh Ministers to make regulations which amend section 29 to vary the evidence that a local authority must have regard to when making a decision under this section.
76. Where a local authority decides that a person is not a fit and proper person, it must notify the person of the reasons for that decision and of the person's right of appeal to a Residential Property Tribunal within 28 days from the date of its decision.

### **Section 30 - Appointment of interim manager**

77. Section 30 allows a local authority to appoint an interim manager of the regulated site if the conditions specified in subsection (2) are met. These are that the local authority considers that the site licence holder is failing or has failed, either seriously or repeatedly, to comply with a condition of the site licence; that the site is not being managed by a fit and proper person; or there is no one managing the site.
78. Under subsection (3) a qualifying residents' association (see section 61) may request the local authority to consider exercising its powers to appoint an interim manager. This might happen, for example, in circumstances when the residents' association do not consider the site manager is a fit and proper person.



79. O dan is-adran (5) os tramgwyddir person gan benderfyniad i benodi rheolwr interim, mae hawl i apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl yn erbyn y penderfyniad o fewn 28 diwrnod.
80. Ni phenodir rheolwr interim am gyfnod amhenodol. Fel y pennir yn adran 30(6) daw'r penodiad i ben ar ddyddiad penodedig neu pan fo trwydded y safle yn dod i ben neu'n cael ei dirymu. Mae is-adran (7) yn caniatáu penodi rheolwr interim newydd pe bai rhywun yn gadael y swydd cyn y dyddiad penodedig.

### **Adran 31 - Telerau penodi a phwerau rheolwr interim**

81. Mae adran 31 yn pennu telerau penodi rheolwr interim, ynghyd â phwerau'r rheolwr interim, a restrir o dan is-adran (2)(a) a (b). O dan is-adrannau (3) a (4) caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i'r rheolwr interim, a chaiff dynnu'n ôl neu ddiwygio'r cyfarwyddiadau a roddir. O dan is-adran (5), ceir didynnu tâl a threuliau rheolwr interim allan o unrhyw incwm y mae hawl gan ddeiliad trwydded y safle i'w gael; ac os yw'r incwm hwnnw'n annigonol, rhaid i unrhyw falans gael ei dalu gan yr awdurdod lleol. Os telir unrhyw swm gan yr awdurdod lleol o dan is-adran (5), caiff yr awdurdod lleol adennill y swm hwnnw oddi ar ddeiliad trwydded y safle.

### **Adran 32 - Pŵer mynediad swyddogion awdurdodau lleol**

82. Mae adran 32 yn ailddatgan adran 26 o Ddeddf 1960, gan gynyddu'r gosb am rwystrô'n fwriadol unrhyw berson sy'n arfer y pŵer mynediad neu a awdurdodir i fynd ar y tir yn rhinwedd gwarant, o ddirwy lefel 1 i lefel 4 ar y raddfa safonol (sef uchafswm o £2,500 yn Nhachwedd 2013).
83. Mae'r adran hon yn darparu pwerau i swyddog neu asiant awdurdodedig yr awdurdod lleol i fynd i mewn ar safle rheoleiddiedig ar bob adeg resymol, os oes sail resymol dros fynd i mewn. Rhaid iddo ddangos dogfen awdurdod a ddilyswyd yn briodol (os gofynnir iddo wneud hynny) a mynnu cael mynediad at y dibenion a amlinellir yn is-adran (1) (a) i (d).
84. Ni chaniateir mynediad i'r safle oni fydd y perchennog wedi cael 24 awr o rybudd, ac eithrio o dan adran 21(7) mewn perthynas â chymau brys.
85. Caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n awdurdodi mynediad i'r tir gan yr awdurdod lleol, gan ddefnyddio grym pe bai angen. Bydd hyn yn digwydd os daw ynad i'r casgliad, ymhlith rhesymau eraill, fod mynediad i'r tir wedi ei wrthod, neu fod y perchennog yn absennol dros dro a bod achos dros fynd i mewn ar frys.

### **Adran 33 - Gorchymynion ad-dalu**

86. Mae adran 33 yn cyflwyno darpariaeth, yn achos safle sydd heb ei drwyddedu, y caiff meddiannydd cartref symudol wneud cais i Dribiwnlys Eiddo Preswyl am orchymyn ad-dalu.
87. Yn is-adran (5) diffinnir gorchymyn ad-dalu fel gorchymyn sy'n gwneud yn ofynnol bod perchennog neu reolwr y safle di-drwydded yn talu i feddiannydd y cartref symudol y symiau a bennir yn y gorchymyn, mewn perthynas â'r taliadau a nodir o dan baragraffau (a) i (d). Caiff y gorchymyn ad-dalu gynnwys unrhyw daliad a wnaed gan y meddiannydd i'r perchennog neu'r rheolwr mewn perthynas â

79. Under subsection (5) if a person is aggrieved by a decision to appoint an interim manager there is a right of appeal against the decision to a Residential Property Tribunal within 28 days.
80. The appointment of the interim manager is not an indefinite appointment, and as set out in section 30(6) will end on a specified date, upon the expiration of a site licence or on its revocation. Subsection (7) allows a new interim manager to be appointed should someone leave the post before the specified date.

### **Section 31 - Terms of appointment and powers of interim manager**

81. Section 31 sets out the terms of appointment of an interim manager with the powers of the interim manager set out under subsection (2)(a) and (b). Under subsections (3) and (4) a local authority may give general or specific directions to the interim manager and may withdraw or amend directions given. Under subsection (5), the remuneration and expenses of an interim manager may be deducted from any income the site licence holder is entitled to receive and if that income is insufficient any balance must be paid by the local authority. If the local authority pays any amount under subsection (5), it may recover them from the licence holder.

### **Section 32 - Power of entry of officers of local authorities**

82. Section 32 restates section 26 of the 1960 Act, with an increase in the penalty for a person wilfully obstructing any person exercising the power of entry or entering land by authorisation of a warrant from a level 1 to a level 4 fine on the standard scale (a maximum of £2,500 at November 2013).
83. This section provides any authorised officer or agent of the local authority with powers of entry to enter a regulated site at all reasonable hours, if there are reasonable grounds for entry. They must produce an authenticated document of authority (if required) and require entry for the purposes outlined in subsection 1 (a) to (d).
84. Admission to the site is only permitted if 24 hours notice has been given to the owner, except under section 21(7) in relation to emergency action.
85. A justice of the peace may issue a warrant to authorise the local authority's entry on to the land, if need be by force. This will happen if a magistrate concludes that, amongst other reasons, access to land has been refused, or the owner is temporarily absent and the case for entry is urgent.

### **Section 33 - Repayment orders**

86. Section 33 introduces provision where, if a site is unlicensed, the occupier of the mobile home may apply to a Residential Property Tribunal for a repayment order.
87. A repayment order is defined in subsection (5) as an order requiring the owner or manager of the unlicensed site to pay the occupier of the mobile home sums specified in the order in respect of those payments under paragraphs (a) to (d). The repayment order may include any payment made by the occupier to the owner or manager in respect of the purchase of the mobile home, any commission paid in respect of the sale of the mobile home, the pitch fee and any periodical payments paid in respect of the mobile home.

phrynu'r cartref symudol, unrhyw gomisiwn a dalwyd mewn perthynas â gwerthu'r cartref symudol, y ffi am y llain ac unrhyw daliadau cyfnodol mewn perthynas â'r cartref symudol.

88. O dan is-adran (6)(a) i (c) rhaid i dribiwnlys fodloni ei hunan ynglŷn â rhai materion, megis bod perchennog y safle wedi ei gollfarnu am drosedd o dan adran 5 mewn perthynas â'r safle, bod meddiannydd wedi gwneud taliad i'r perchennog yn ystod yr amser y cyflawnwyd y drosedd a bod y cais wedi ei wneud o fewn 12 mis ar ôl dyddiad y gollfarn.
89. O dan is-adran (8), y swm y mae'n ofynnol ei dalu o dan is-adran (5) yw'r cyfryw swm a ystyrir yn rhesymol gan y tribiwnlys yn yr amgylchiadau. Mae is-adran (9) yn pennu'r materion y mae'n rhaid i'r tribiwnlys eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu'r swm sydd i'w dalu. Mae is-adran (10) yn darparu na chaiff gorchymyn ad-dalu gynnwys unrhyw swm sy'n ymwneud â chyfnod y tu allan i'r 12 mis sy'n diweddu gyda dyddiad cais y meddiannydd.
90. O dan is-adran (11), mae symiau sy'n daladwy i feddiannydd cartref symudol o dan orchymyn ad-dalu yn adenilladwy fel dyled sy'n ddyladwy i'r meddiannydd gan berchennog neu reolwr y safle.

#### **Adran 34 - Datganiadau neu wybodaeth anwir neu gamarweiniol**

91. Mae adran 34 yn peri y cyflawnir trosedd os gwneir datganiad neu osodiad arall sy'n gamarweiniol, neu os darperir gwybodaeth anwir neu gamarweiniol o dan Ran 2 o'r Ddeddf, gan wybod neu gredu bod yr wybodaeth honno'n anwir neu'n gamarweiniol. Y gosb, yn dilyn collfarn ddiannod, yw dirwy (sef uchafswm o £5,000 yn Nhachwedd 2013).

#### **Adran 35 - Canllawiau gan Weinidogion**

92. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ar gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf hon. Rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau o'r fath.

#### **Adran 36 - Pwerau i godi taliadau: atodol**

93. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ffioedd o dan adran 6 (gwneud cais am drwydded safle) neu adran 13 amrywio amodau trwydded safle). Mae is-adran (2) yn gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn paratoi a chyhoeddi polisi cyn codi ffi. Mae is-adrannau (3) a (4) yn nodi'r hyn y mae angen i awdurdod lleol ei wneud wrth bennu ffioedd, a pha gostau na chânt eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu ffi.

#### **Adran 37 - Cofrestrau trwyddedau safle**

94. Mae adran 37 yn gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn cadw cofrestr o drwyddedau safle ac yn ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

#### **Adran 38 - Tir y Goron**

95. Mae adran 38 yn datgan nad yw Rhan 2 o'r Ddeddf yn gymwys i dir y Goron.

88. Under subsection (6)(a) to (c) a tribunal must be satisfied that certain matters are satisfied, such as that the owner of the site has been convicted of an offence under section 5 in relation to the site, that an occupier made a payment to the owner during the time that the offence was committed and that the application has been made within 12 months of the date of the conviction.
89. Under subsection (8), the amount required to be paid under subsection (5) is such an amount as the tribunal considers reasonable in the circumstances. Subsection (9) sets out the matters the tribunal must take into account when determining the amount to be paid. Subsection (10) provides that a repayment order may not require the payment of any amount relating to a period outside the 12 months ending with the date of the occupier's application.
90. Under subsection (11), amounts payable to an occupier of a mobile home under a repayment order are recoverable as a debt due to the occupier from the owner or manager of the site.

#### **Section 34 - False or misleading statements or information**

91. Section 34 makes it an offence to make a false or misleading declaration or other statement, or to provide false or misleading information knowing or believing it to be false or misleading under Part 2 of the Act. The penalty on summary conviction is a fine (a maximum of £5,000 at November 2013).

#### **Section 35 - Guidance by Welsh Ministers**

92. The Welsh Ministers may issue guidance to local authorities on the performance of their functions under Part 2 of this Act. Local authorities must pay regard to such guidance.

#### **Section 36 - Powers to charge fees: supplementary**

93. This section allows local authorities to charge fees under section 6 (application for a site licence) or section 13 (varying the conditions of a site licence). Subsection (2) requires a local authority to prepare and publish a fees policy before charging a fee. Subsections (3) and (4) set out what a local authority needs to do when fixing fees and which costs they may not take into account when fixing a fee.

#### **Section 37 - Registers of site licences**

94. Section 37 requires all local authorities to keep a register of site licences which is available for public inspection.

#### **Section 38 - Crown land**

95. Section 38 states that Part 2 of the Act does not apply to Crown Land.

### **Rhan 3: Amddiffyn rhag troi allan**

96. Mae'r Rhan hon yn deillio o Ddeddf Safleoedd Carafannau 1968 ("Deddf 1968") ac wedi ei diwygio i ddarparu eglurder a chysondeb ychwanegol.

### **Adran 40 – Cymhwyso'r Rhan**

97. Mae'r adran hon yn deillio o adran 1(1) o Ddeddf 1968 Act ac yn sicrhau y cymhwysir y diogelwch yn Rhan 3 i unrhyw un sydd â thrwydded neu gontract sy'n rhoi hawl i berson :

- a. osod cartref symudol ar safle gwarchoddedig er mwyn ei feddiannu fel preswylfa'r person hwnnw, neu,
- b. symud i mewn i gartref symudol a oedd eisoes ar y safle.

### **Adran 41 – Parhad lleiaf hysbysiad**

98. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo contract preswyl yn gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiad terfynu, bod rhaid rhoi dim llai na phedair wythnos o rybudd o'r dyddiad y bydd yr hysbysiad terfynu'n cael effaith.

### **Adran 42 - Amddiffyn meddianwyr yn erbyn eu troi allan ac aflonyddu arnynt, gwybodaeth anwir etc.**

99. Mae adran 42 yn ailddatgan adran 3 o Ddeddf 1968 Act gyda rhai diwygiadau. Yn is-adran (4), hepgorwyd y gair "persistently" ac felly cyflawnir trosedd o dan yr adran honno os yw person yn cadw'n ôl neu'n tynnu'n ôl wasanaethau neu gyfleusterau sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn meddiannu'r cartref symudol. Adlewyrchir yr un diwygiad yn is-adran (5), ac felly cyflawnir trosedd os yw perchennog safle gwarchoddedig neu ei asiant yn cadw'n ôl neu'n tynnu'n ôl wasanaethau neu gyfleusterau sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn meddiannu'r cartref symudol fel preswylfa ar y safle.

100. Mae is-adran (6) yn creu trosedd newydd. Mae perchennog safle gwarchoddedig neu ei asiant yn cyflawni trosedd os ydyw, yn ystod oes contract preswyl, yn darparu gwybodaeth neu'n gwneud sylw sy'n anwir neu'n gamarweiniol gan wybod hynny neu'n ddi-hid. Rhaid i'r perchennog neu'r asiant, yn ychwanegol, fod yn gwybod, neu fod â rheswm da dros gredu, bod gweithredu felly yn debygol o beri –

- bod y meddiannydd yn rhoi'r gorau i feddiannu'r cartref symudol neu'n symud y cartref oddi ar y safle,
- bod y meddiannydd yn ymatal rhag arfer unrhyw hawl neu rhag mynd ar drywydd unrhyw rwymedi mewn perthynas â hynny; neu
- bod person sy'n ystyried a ddylai brynu neu feddiannu'r cartref symudol y mae'r contract preswyl yn ymwneud ag ef yn penderfynu peidio â gwneud hynny.

### **Adran 43 – Troseddau o dan adran 42: atodol**

101. O dan is-adran (1), mewn achos ynglŷn â thorri adran 42(2) neu (3), mae'n amddiffyniad os profir bod y cyhuddedig yn credu, a bod ganddo achos rhesymol dros gredu, bod meddiannydd y cartref symudol wedi rhoi'r gorau i fyw ar y safle. Yn is-adran (2), mewn achos ynglŷn â thorri adran 42(5) mae'n amddiffyniad os profir bod gan y cyhuddedig sail resymol dros wneud y gweithredoedd neu dynnu'n ôl neu gadw'n ôl y gwasanaethau neu'r cyfleusterau.



### **Part 3 - Protection from eviction**

96. This Part derives from the Caravan Sites Act 1968 ("the 1968 Act") and has been amended to provide additional clarity and consistency.

### **Section 40 - Application of Part**

97. This section is derived from section 1(1) of the 1968 Act and ensures that the protection in Part 3 is applied to anyone who has a licence or a contract under which a person is entitled to:

- a. station a mobile home on a protected site to occupy it as the person's residence, or,
- b. move into a mobile home that was already on site.

### **Section 41 - Minimum length of notice**

98. This section provides that where a residential contract requires notice of termination that notice must be not less than 4 weeks notice before the date it is to take effect must be given.

### **Sections 42 - Protection of occupiers against eviction and harassment, false information etc.**

99. Section 42 restates section 3 of the 1968 Act with some amendments. In subsection (4), the word "persistently" has been removed so that an offence is committed under this subsection if a person withdraws or withholds services or facilities reasonably required for the occupation of the mobile home. The same amendment is reflected in subsection (5), so that an offence is committed if the owner of a protected site or his or her agent withdraws or withholds services or facilities reasonably required for the occupation of the mobile home as a residence on the site.

100. Subsection (6) creates a new offence. The owner of a protected site, or their agent, commits an offence if, during the lifetime of a residential contract, they knowingly or recklessly provide information or make a representation to a person which is false or misleading. In addition, the owner or agent must know, or have reasonable cause to believe, that taking this action is likely to:-

- cause the occupier to abandon occupation of the mobile home or remove it from the site,
- cause the occupier not to exercise any right or pursue any remedy in relation to that; or
- cause a person who is considering whether to purchase or occupy the mobile home to decide not to do so.

### **Section 43 - Offences under Section 42 supplementary**

101. Under subsection (1), it is a defence in proceedings for an offence of contravening section 42(2) or (3) to prove that the accused believed and had reasonable cause to believe that the occupier of the mobile home ceased to reside there. In subsection (2), in proceedings for an offence contravening section 42(5) it is a defence to prove that the accused had reasonable grounds for withdrawing or withholding services or facilities.

102. O dan is-adran (3), y gosb am drosedd o dan adran 42 yn dilyn collfarn ddiannod (mewn llys ynadon) yw dirwy neu gyfnod o garchar na fydd yn hwy na 12 mis, neu'r ddau, ac yn dilyn collfarn ar dditiad (yn llys y Goron), dirwy neu gyfnod o garchar na fydd yn hwy na 2 flynedd, neu'r ddau.

#### **Adran 44 - Darpariaeth ar gyfer atal gorchmynion troi allan dros dro**

103. Mae adran 44 yn pennu'r amgylchiadau pan gaiff llys atal gorfodi gorchymyn a wnaed gan y llys i droi allan y meddiannydd oddi ar safle, am gyfnod na fydd yn hwy na 12 mis.

#### **Rhan 4 - Cytundebau cartrefi symudol**

##### **Adran 48 - Cytundebau y mae'r Rhan yn gymwys iddynt**

104. Mae adran 48 yn ailddatgan adran 1(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ("Deddf 1983") ac yn datgan bod Rhan 4 yn ymwneud â chytundebau y mae gan berson hawl odanynt i osod cartref symudol ar safle gwarchoddedig ac i feddiannu'r cartref symudol fel unig neu brif breswylfa'r person hwnnw. Mae'n diffinio pwy sydd yn "feddiannydd" yn Rhan 4.

##### **Adrannau 49 - Manylion cytundebau**

105. Mae adran 49 yn pennu gofynion ar gyfer cytundebau. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i berchennog safle gwarchoddedig, cyn gwneud cytundeb, roi datganiad ysgrifenedig i'r darpar feddiannydd o dan y cytundeb, sy'n nodi'r materion hynny a restrir ym mharagraffau (a) i (e), megis telerau datganedig ac ymhlyg y cytundeb. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn pennu gwybodaeth bellach y bydd yn rhaid ei chynnwys yn y datganiad hwnnw.
106. Mae is-adran (2) yn pennu pa bryd y mae'n rhaid rhoi'r datganiad ysgrifenedig.
107. Mae is-adran (4) yn datgan, os yw cytundeb yn cynnwys telerau datganedig, ac eithrio rheol safle, nad oedd wedi ei nodi yn y datganiad ysgrifenedig, nad yw'r telerau hwnnw'n orfodadwy gan y perchennog (gweler hefyd adran 50(3)). Telerau datganedig yw'r telerau cytundeb y mae perchennog safle wedi eu cynnwys mewn cytundeb gyda meddiannydd. Telerau ymhlyg yw'r telerau hynny o dan Ran 1 o Atodlen 2, sy'n oblygedig ym mhob cytundeb rhwng meddiannydd a perchennog safle.
108. Mae is-adran (5) yn pennu'r hyn fydd yn digwydd os yw'r perchennog yn peidio â rhoi datganiad ysgrifenedig i'r meddiannydd.
109. Nid yw is-adrannau (2), (3) a (5) yn gymwys i berson sy'n meddiannu neu'n bwriadu meddiannu llain dramwy ar safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol.

##### **Adran 50 - Telerau cytundebau**

110. Mae adran 50 yn cyflwyno Atodlen 2 (Telerau Cytundebau Cartrefi Symudol) sy'n pennu'r telerau sy'n ymhlyg mewn unrhyw gytundeb y mae Rhan 4 yn gymwys iddo. Mae'n pennu hefyd, yn is-adrannau (2) i (4), y caiff tribiwnlys neu lys (gweler adran 54) wneud gorchymyn i ddiwygio neu ddileu unrhyw deler datganedig ac eithrio rheol safle (gweler adran 52).



102. Under subsection (3), the penalty for an offence under section 42 is on summary conviction (magistrates court) is to a fine, or to imprisonment for a term not exceeding 12 months, or to both and on conviction on indictment (crown court), to a fine or two years' imprisonment or to both.

#### **Section 44 – Provision for suspension of eviction orders**

103. Section 44 sets out the circumstances when a court can suspend the enforcing of an order it has made to evict the occupier from a site for a period not exceeding 12 months.

### **Part 4 - Mobile Home Agreements**

#### **Section 48 – Agreements to which Part applies**

104. Section 48 restates section 1(1) of the Mobile Homes Act 1983 ("the 1983 Act") and states that Part 4 relates to agreements under which a person is entitled to station a mobile home on a protected site and to occupy the mobile home as the person's only or main residence. It defines who an "occupier" is under Part 4.

#### **Sections 49 – Particulars of agreements**

105. Section 49 sets out requirements for agreements. Subsection (1) provides that before making an agreement, the owner of a protected site must give a written statement to the proposed occupier under the agreement setting out those matters listed in paragraphs (a) to (e), such as the express and implied terms of the agreement. The Welsh Ministers may make regulations which specify further information that must be included in this statement.
106. Subsection (2) sets out when the written statement must be given.
107. Subsection (4) states that if an agreement includes an express term, other than a site rule, which was not set out in the written statement, the term is unenforceable by the owner (see also section 50(3)). Express terms are the terms of the agreement that a site owner has included in the agreement with an occupier. Implied terms are those under Part 1 of Schedule 2 which are implied into all agreements between occupiers and site owners.
108. Subsection (5) sets out what happens if the owner fails to give an occupier a written statement.
109. Subsections (2), (3) and (5) do not apply to a person occupying or proposing to occupy a transit pitch on a local authority Gypsy and Traveller site.

#### **Section 50 – Terms of agreements**

110. Section 50 introduces Schedule 2 (Terms of Mobile Home Agreements) which set out the terms to be implied in any agreement to which Part 4 applies. It also sets out in subsections (2) to (4) that a tribunal or court (see section 54) may make an order to amend or delete any express term other than a site rule (see section 52).

111. Nid yw is-adrannau (2) i (4) yn gymwys i berson sy'n meddiannu neu'n bwriadu meddiannu llain dramwy ar safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol.

### **Adran 51 – Pŵer i ddiwygio telerau ymhlyg**

112. Mae adran 51 yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Atodlen 2 – ac eithrio paragraff 11 – fel yr ystyriant yn briodol.

### **Adran 52 – Rheolau safle**

113. Mae adran 52 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â “rheolau safle” (fel y'u diffinnir yn is-adran (2)). O dan y darpariaethau (nad ydynt yn gymwys i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol) bydd pob rheol safle'n deler datganedig o'r cytundeb llain rhwng perchennog y safle a meddiannydd y cartref symudol, ac felly'n creu sicrwydd i'r ddau barti. Bydd y darpariaethau hyn yn gymwys i gytundebau llain sy'n bodoli eisoes yn ogystal â'r cytundebau a wneir wedi i'r darpariaethau ddod i rym.

114. Mae'r darpariaethau'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan berchennog safle sy'n dymuno gwneud rheolau safle newydd neu amrywio neu ddileu rheolau presennol; gwneir yn ofynnol, er enghraifft, ymgynghori â'r meddianwyr. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sydd hefyd yn—

- Peri bod rheolau safle presennol (h.y. rhai a wnaed cyn dyddiad cychwyn adran 52) yn peidio â chael effaith erbyn pa bynnag ddyddiad a bennir yn y rheoliadau;
- Rhagnodi materion na chaniateir gwneud rheolau safle mewn perthynas â hwy;
- Sefydlu proses ar gyfer datrys anghydfodau sy'n codi rhwng perchennogion safle a meddianwyr cartrefi symudol ynglŷn â gwneud, amrywio neu ddileu rheolau safle;
- Gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn cynnal a chyhoeddi cofrestr gyfoes o reolau safle ar gyfer safleoedd gwarchoddedig yn ei ardal.

### **Adran 53 – Olynwyr mewn teitl**

115. Mae adran 53 yn ailddatgan adran 3 o Ddeddf 1983 Act gyda rhai diwygiadau, ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo cytundeb cartref symudol i rywun arall ar farwolaeth un o'r partion i'r cytundeb. Mae is-adran (3)(a) yn diffinio'r personau sydd â hawl i olyn mewn perthynas â chytundeb y mae Rhan 4 yn gymwys iddo. O dan is-adran (3)(b), yn absenoldeb person o'r fath, penderfynir pwy fydd â hawl i gael y cartref symudol yn unol ag ewyllys yr ymadawedig neu o dan y gyfraith ar ddiewyllysedd (yn ddarostyngedig i is-adran(4)).

### **Rhan 5 – Pwerau'r awdurdodau lleol**

#### **Adran 56 – Pŵer i ddarparu safleoedd i gartrefi symudol**

116. Mae adran 56 yn pennu bod pŵer gan awdurdod lleol i ddarparu safleoedd cartrefi symudol ar dir o fewn ei ardal.

117. Mae is-adran (2) yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw beth sy'n ddymunol mewn cysylltiad â darparu safle o dan is-adran (1) megis caffael tir.

111. Subsections (2) to (4) do not apply in relation to a person occupying or proposing to occupy a transit pitch on a local authority Gypsy and Traveller site.

### **Section 51 – Power to amend implied terms**

112. Section 51 states that the Welsh Ministers may by order amend Schedule 2 - apart from paragraph 11 - as they consider appropriate.

### **Section 52 - Site rules**

113. Section 52 makes provision about “site rules” (as defined in subsection (2)). Under the provisions (which do not apply to local authority Gypsy and Traveller sites) every site rule will be an express term of the pitch agreement between the site owner and the mobile home occupier creating certainty for both parties. These provisions will apply to existing pitch agreements as well as to those made after the provisions come into force.

114. The provisions confer a power on the Welsh Ministers to make regulations about the procedure to be followed by a site owner who is proposing to make new site rules or to vary or delete existing site rules, for example, requiring prior consultation with occupiers. The Welsh Ministers may also make regulations which:-

- Render existing site rules (i.e. ones pre-dating the commencement of section 52) of no effect by such date as set out in the regulations;
- Prescribe matters in relation to which site rules may not be made;
- Establish a process for the resolution of disputes arising between site owners and mobile home occupiers regarding the making, varying or deleting site rules;
- Require a local authority to keep and publish an up-to-date register of site rules for protected sites in its area.

### **Section 53 - Successors in title**

115. Section 53 restates section 3 of the 1983 Act with some amendments, and provides for a mobile home agreement to be passed to another on the death of a party to the agreement. Subsection (3)(a) defines those persons entitled to succeed to an agreement to which Part 4 applies. Under subsection (3)(b), in default of any such persons, the person entitled to the mobile home is established by virtue of the deceased’s will or under the law of intestacy (subject to subsection (4)).

## **Part 5 – Powers of local authorities**

### **Section 56 – Power to provide sites for mobile homes**

116. Section 56 sets out the power of a local authority to provide mobile homes sites on land within its area.
117. Subsection (2) includes a power to do anything desirable in connection with the provision of a site under subsection (1) such as acquiring land.

### **Adran 57 – Pŵer i wahardd cartrefi symudol ar dir comin**

118. Mae adran 57 yn gymwys i unrhyw dir yng Nghymru sy'n ffurfio rhan o dir comin ac nad yw'n dir y mae adran 193 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 yn gymwys iddo, tir sy'n destun cynllun o dan Ran 1 o Ddeddf Tiroedd Comin 1889, nac yn dir y mae trwydded safle mewn grym mewn perthynas ag ef. O dan is-adran (11) mae "tir comin" yn cynnwys unrhyw dir sy'n ddarostyngedig i'w amgáu o dan Ddeddfau Amgáu Tir 1845 i 1882 ac unrhyw lawnt tref neu lawnt pentref.
119. O dan is-adrannau (2) i (4), caiff awdurdod lleol wneud gorchymyn sy'n gwahardd gosod cartref symudol ar dir y mae'r adran hon yn gymwys iddo. Mae unrhyw berson sy'n torri gorchymyn o'r fath yn euog o drosedd, ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 1 ar y raddfa safonol (uchafswm o £200 yn Nhachwedd 2013).
120. Rhaid i awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod copïau o orchymyn o'r fath yn cael eu harddangos ar y tir i ddarparu rhybuddion priodol (is-adran (5)). Caiff yr awdurdod lleol ddirymu gorchymyn ar unrhyw adeg, neu ei amrywio i er mwyn hepgor unrhyw dir ohono neu gyflwyno eithriad (is-adran (7)).

### **Rhan 6 – atodol a chyffredinol**

121. Mae Rhan 6 yn ymdrin â materion technegol, megis y pŵer i wneud darpariaethau canlyniadol, trosiannol, darfodol ac arbedion.

### **Adran 59 – Rhwymedigaeth swyddogion cyrff corfforaethol**

122. Mae adran 59 yn gymwys i unrhyw drosedd o dan y Ddeddf hon a gyflawnir mewn perthynas â thir yng Nghymru. Mae'n efelychu'r ddarpariaeth a gynhwysir yn adran 14 o Ddeddf 1968. Yn adran 59 darperir, pan fo corff corfforaethol yn cyflawni trosedd, a phrofir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydysyniad neu drwy gydlynllwyn swyddog y corff corfforaethol, neu fod y drosedd i'w phriodoli i esgeulustod ar ran y person hwnnw, yna bydd y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r drosedd. Gellir dwyn achos yn erbyn y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol a gellir cosbi'r ddau yn unol â hynny. Mae is-adran (2) yn diffinio ystyr swyddog corff corfforaethol

### **Adran 60 – Ystyr "cartref symudol"**

123. Mae adran hyn yn diffinio 'cartref symudol'. Mae is-adran (1) yn deillio o adran 29(1) o Ddeddf 1960 Act. Mae is-adrannau (2) i (4) yn deillio o adran 13(1) i(3) o Ddeddf 1968.

### **Adran 61 – Ystyr "cymdeithas trigolion gymwys"**

124. Mae adran 61 yn darparu diffiniad o gymdeithas trigolion gymwys ac yn deillio o baragraff 28 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 gyda rhai diwygiadau. Er enghraifft, o dan is-adran (1)(b) rhaid i gymdeithas fod â meddianwyr 50%, o leiaf, o'r cartrefi symudol yn aelodau ohoni; o dan baragraff (e) mae ei rheolau a'i chyfansoddiad yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd; a rhaid i'r gymdeithas trigolion gymwys gynnal rhestr o'i haelodau. O dan is-adran (1)(g), gwneir penderfyniadau drwy bleidleisio a chaniateir un bleidlais yn unig i bob cartref symudol.

### **Section 57 – Power to prohibit mobile homes on commons**

118. Section 57 applies to any land within Wales which forms part of a common and is not land to which section 193 of the Law of Property Act 1925 applies, land subject of a scheme under Part 1 of the Commons Act 1889, or land in respect of which a site licence is in force. Under subsection (11) “common” includes land subject to be enclosed under the Inclosure Acts 1845 to 1882 and any town or village green.
119. Under subsections (2) to (4), a local authority may make an order prohibiting the stationing of a mobile home on land to which this section applies. Any person who contravenes such an order is guilty of an offence, and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 1 on the standard scale (a maximum of £200 at November 2013).
120. A local authority must take all reasonable steps to secure that copies of such an order are displayed on the land to provide appropriate warnings (subsection (5)). An order may be revoked by the local authority at any time or an order may be varied to exclude any land or to provide an exception (subsection (7)).

### **Part 6 – Supplementary and General**

121. Part 6 deals with technical matters, such as the power to make consequential, transitional, transitory and savings provisions.

### **Section 59 – Liability of officers of bodies corporate**

122. Section 59 applies to any offence under this Act committed in relation to land in Wales. It mirrors the provision contained in section 14 of the 1968 Act. Section 59 provides that where a body corporate commits an offence and it is proved that the offence was committed with the consent or connivance of an officer of the body corporate, or the offence was attributable to neglect on the part of this person, then this person is guilty of the offence as well as the body corporate. Proceedings can be brought against this person as well as the body corporate and both may be punished accordingly. Subsection (2) defines what is meant by an officer of a body corporate.

### **Section 60 – Meaning of ‘mobile home’**

123. The section defines a ‘mobile home’. Subsection (1) derives from section 29(1) of the 1960 Act. Subsections (2) to (4) derive from section 13(1) to (3) of the 1968 Act.

### **Section 61 – Meaning of “qualifying residents’ association”**

124. Section 61 provides a definition of a qualifying residents' association and derives from paragraph 28 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act with some amendments. For example, under subsection (1)(b) an association must have occupiers of at least 50% of mobile homes being members of the association and under paragraph (e) its rules and constitution are open to public inspection and the qualifying residents' association must maintain a list of its members. Under subsection (1)(g), decisions are taken by voting and there is only one vote per mobile home.



125. O dan is-adran (2), un meddiannydd yn unig o bob cartref symudol gaiff fod yn aelod o'r gymdeithas. Os oes mwy nag un meddiannydd, cânt gytuno ar bwy fydd yn aelod o'r gymdeithas neu, yn niffyg cytundeb, yr aelod fydd yr un y mae ei enw yn ymddangos gyntaf ar y cytundeb.
126. O dan is-adran (3), nid yw cymdeithas yn gymdeithas trigolion gymwys oni fydd rhestr gyfoes o'i haelodau wedi ei hadneuo gyda'r awdurdod lleol.
127. O dan is-adran (4), pan fo copi o'r rhestr o aelodau wedi ei hadneuo gyda'r awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ganfod a yw meddianwyr 50% o leiaf o'r cartrefi symudol yn aelodau o'r gymdeithas, a rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r gymdeithas a'r perchennog sy'n datgan a fodlonwyd yr awdurdod lleol ai peidio fod 50% o leiaf o'r cartrefi symudol ar y safle yn aelodau o'r gymdeithas. O dan is-adran (5), os bodlonir awdurdod lleol fod 50% o leiaf o'r cartrefi ar y safle yn aelodau, mae dyletswydd ar gymdeithas i gyflwyno rhestr ddiwedddareidig o'i haelodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl unrhyw newidiadau yn ei haelodaeth. O dan is-adran (6), os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol nad yw aelodaeth cymdeithas bellach yn cynnwys meddianwyr 50% o leiaf o'r cartrefi ar y safle, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r gymdeithas a perchennog y safle nad yw'r gymdeithas bellach yn gymdeithas trigolion gymwys.
128. O dan adran 41(1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, trinnir unrhyw ddatgeliad i'r cyhoedd o'r rhestr a adneuwyd gyda'r awdurdod lleol o aelodau cymdeithas trigolion gymwys fel toriad cyfrinachedd y gall aelodau o'r gymdeithas ddwyn achos yn ei gylch (ac eithrio datgelu manylion y cadeirydd, yr ysgrifennydd neu'r trysorydd)

### **Adran 63 - Gorchmynion a Rheoliadau**

129. Mae adran 63 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer gorchmynion a rheoliadau o dan y Ddeddf. Yn benodol, mae'n darparu ar gyfer gwneud gorchmynion a rheoliadau drwy offeryn statudol, ac eithrio pan bennir yn wahanol.
130. Mae adran 63(3) a (4) yn gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori cyn arfer eu pŵer o dan adran 51 (pŵer i ddiwygio telerau ymhlyg) ac adran 60(4) (gorchmyn yn diwygio'r ffigurau ynglŷn â dimensiynau cartref symudol a grybwyllir yn adran 60(3)).
131. Mae is-adrannau (5) i (7) yn pennu gweithdrefn y Cynulliad sydd i'w chymhwyso mewn perthynas â gwahanol offerynnau statudol.

### **Atodlen 1 - Safleoedd nad ydynt yn safleoedd rheoleiddiedig**

132. Mae Atodlen 1 yn ailddatgan Atodlen 1 i Ddeddf 1960 sy'n pennu pa safleoedd sy'n esempt rhag cael trwydded safle, er enghraifft safle ar gyfer gweithwyr amaethyddiaeth neu goedwigaeth (paragraffau 7 ac 8), adeiladu pheiriannu (paragraff 9) a siewmyn teithiol (paragraff 10).
133. Mae paragraff 12 yn darparu esemptiad dros dro ar ôl marwolaeth y perchennog neu newid perchnogaeth. Mewn achosion o'r fath darperir "cyfnod esempt cychwynnol" o 3 mis o'r gofyniad i gael trwydded safle, a chaiff yr awdurdod lleol estyn y cyfnod hwnnw os gwneir cais.



125. Under subsection (2), only one occupier of each mobile home may be a member of the association. Where there is more than one occupier, they can agree who will be the member of the association or, in default of agreement, the one whose name appears first on the agreement.
126. Under subsection (3), an association is not a qualifying residents' association unless an up-to-date list of members has been lodged with the local authority.
127. Under subsection (4), when a copy of the list of members is lodged with a local authority, it must take reasonable steps to ascertain whether occupiers of at least 50% of the mobile homes are members of the association, and give notice in writing to the association and the owner stating whether or not it is satisfied that occupiers of at least 50% of the homes on site are members of the association. Under subsection (5), where a local authority is satisfied that occupiers of at least 50% of the homes on site are members, the association has a duty to lodge an up-to-date copy of its list of members as soon as is practicable after any changes in its membership. Under subsection (6), where it appears to a local authority that membership no longer includes occupiers of at least 50% of the homes on site, the local authority must give notice to the association and the site owner that the association is no longer a qualifying residents association.
128. Any disclosure to the public of the list of qualifying residents' association members lodged with the local authority is treated under section 41(1) of the Freedom of Information Act 2000 as a breach of confidence actionable by the members of the association (other than disclosure of details of the chairman, secretary or treasurer).

### **Section 63 – Orders and Regulations**

129. Section 63 makes general provision for orders and regulations under the Act. In particular, it provides for orders and regulations to be made by statutory instrument except where specified otherwise.
130. Section 63(3) and (4) require the Welsh Ministers to consult before exercising their power under section 51(power to amend implied terms) and section 60(4) (an order amending the figures relating to the dimensions of a mobile home mentioned in section 60(3)).
131. Subsections (5) to (7) set out the Assembly procedure to be applied in respect of various statutory instruments.

### **Schedule 1 - Sites which are not regulated sites**

132. Schedule 1 restates Schedule 1 of the 1960 Act setting out those sites that are exempt from a site licence, for example agricultural and forestry workers (paragraphs 7 and 8), building and engineering sites (paragraph 9) and travelling showmen (paragraph 10).
133. Paragraph 12 provides for a temporary exemption after the death of the owner or change of ownership. In such cases, there is a 3 month "initial exempt period" from the requirement to have a site licence which the local authority may extend on application.

## **Atodlen 2 – Telerau cytundebau cartrefi symudol**

134. Mae Atodlen 2 yn cynnwys dwy Ran, y gyntaf yn ymdrin â thelerau a ymhlygir gan y Ddeddf, a'r ail yn ymdrin â materion y caiff y corff barnwrol priodol eu hymhlygu.
135. Rhennir Rhan 1 yn bedair Pennod. Ym Mhennod 1 pennir i ba gytundebau y mae'r telerau ymhlyg ym mhob Pennod yn gymwys a darperir diffiniadau o'r termau sy'n gyffredin i bob Pennod. Mae Pennod 2 yn gymwys i bob cytundeb ac eithrio cytundebau ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol. Mae Pennod 3 yn pennu'r telerau ymhlyg sy'n gymwys i leiniau tramwy ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol a Phennod 4 yn pennu'r telerau ymhlyg sy'n gymwys i leiniau parhaol ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol.

## **Pennod 2 – Cytundebau sy'n ymwneud a lleiniau ac eithrio'r rhai hynny sydd ar safleoedd awdurdodau lleol i sipsiwn a theithwyr**

136. Mae paragraffau 2 i 8 yn ailddatgan paragraffau 1, 2, 3, 4, 5, 5A a 7 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 Act yn ymwneud â pharhad cytundebau ynglŷn â lleiniau (ac eithrio ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol), terfynu gan y meddiannydd ac adennill gordaliadau gan y meddiannydd.
137. Mae paragraff 9 o Atodlen 2 yn disodli paragraff 8 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 Act ac yn ymwneud â "chytundebau newydd," h.y. rhai a wneir neu a aseirir wedi i'r darpariaethau hyn ddod i rym. Mae'n rhoi hawl i feddiannydd y cartref symudol werthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb yn ogystal â rhoi hawl i berchennog safle gael comisiwn ar werthiant. Mae'n dileu'r gofyniad bod perchennog y safle'n cymeradwyo'r the person y gwerthir y cartref symudol iddo. Mae'n gwneud yn ofynnol bod prynwr cartref symudol yn hysbysu perchennog y safle ynghylch cwblhau'r gwerthiant ac aseinio'r cytundeb. Mae'n rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau sy'n pennu gofynion o ran y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan y partïon sy'n gysylltiedig â'r gwerthu.
138. Mae paragraff 10 yn pennu'r trefniadau ar gyfer gwerthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb pan nad yw'r cytundeb yn gytundeb newydd. Rhaid i'r meddiannydd roi hysbysiad ysgrifenedig i'r perchennog, i'r perwyl ei fod yn bwriadu gwerthu'r cartref symudol. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys enw'r person y mae'n bwriadu gwerthu'r cartref symudol iddo a pha bynnag wybodaeth arall a fydd yn ofynnol gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. O fewn 21 diwrnod, caiff perchennog y safle wneud cais i dribiwnlys am "orchymyn gwrthod" sy'n rhwystro'r meddiannydd rhag gwerthu'r cartref symudol. Os nad yw'r meddiannydd yn cael hysbysiad o gais y perchennog i dribiwnlys am orchymyn gwrthod, neu os yw'r tribiwnlys yn gwrthod dyroddi gorchymyn gwrthod, caiff y gwerthiant ac aseinio'r cytundeb fynd ymlaen. Pan fo gwerthiant yn mynd ymlaen o dan baragraff 10, mae hawl gan perchennog y safle i gael comisiwn ar y gwerthiant
139. Mae paragraff 10 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu ar ba sail y caiff perchennog wneud cais i dribiwnlys am orchymyn gwrthod (paragraff 10(7)) ac yn pennu'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan y partïon ynglŷn â'r gwerthiant (paragraff 10(10)). Gallai'r seiliau y caniateir i perchennog wneud cais arnynt am orchymyn gwrthod gynnwys, er enghraifft, oedran y prynwr neu gadw anifeiliaid anwes, os oes rheolau gan y safle mewn perthynas â materion o'r fath.

## **Schedule 2 – terms of mobile homes agreements**

134. Schedule 2 contains two Parts, the first dealing with terms implied by the Act, the second dealing with matters concerning which terms may be implied by the appropriate judicial body.
135. Part 1 is set out in four Chapters. Chapter 1 sets out to which agreements the implied terms in each Chapter applies and provides definitions of terms common to all Chapters. Chapter 2 applies to all agreements except for local authority Gypsy and Traveller sites. Chapter 3 sets out the implied terms that apply to transit pitches of a local authority Gypsy and Traveller site and Chapter 4 sets out the implied terms that apply to permanent pitches of a local authority Gypsy and Traveller site.

## **Chapter 2 – Agreements relating to pitches except those on local authority Gypsy and Traveller sites**

136. Paragraphs 2 to 8 restate paragraphs 1, 2, 3, 4, 5, 5A and 7 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act relating to the duration of agreements relating to pitches (except local authority Gypsy and Traveller sites), termination by the occupier and the recovery of overpayments by the occupier.
137. Paragraph 9 of Schedule 2 replaces paragraph 8 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act and relates to "new agreements," i.e. those made or assigned after these provisions have come into force. It entitles the mobile home occupier to sell the mobile home and assign the agreement as well as entitling the site owner to receive a commission on sale. It removes the requirement for the site owner to approve the person to whom the mobile home is being sold. It requires the purchaser of a mobile home to notify the site owner of the completion of the sale and assignment of the agreement. It also confers on the Welsh Ministers power to make regulations which specify the procedures requirements to be followed by the parties involved with the sale.
138. Paragraph 10 sets out the arrangements for selling the mobile home and assigning the agreement where there is an existing agreement. The occupier must serve written notice on the owner that he proposes to sell the mobile home. The notice must include the name of the person to whom he proposes to sell the mobile home and such other information as may be required by regulations made by the Welsh Ministers. Within 21 days the site owner can apply to a tribunal for "a refusal order" preventing the occupier from selling the mobile home. If the occupier does not receive notice of the owner's application to a tribunal for a refusal order or the tribunal declines to issue a refusal order, the sale and assignment of the agreement can proceed. Where a sale proceeds under paragraph 10, the site owner is entitled to receive a commission on the sale.
139. Paragraph 10 also confers powers on the Welsh Ministers to make regulations setting out the grounds on which an owner may apply to the tribunal for a refusal order (paragraph 10(7)) and specifying the procedures to be followed by the parties in connection with the sale (paragraph 10(10)). The grounds on which an owner may apply for a refusal order could, for example, include the age of the buyer and the keeping of pets, where a site has rules in relation to such matters.

140. Mae paragraff 11 yn gymwys pan fo'r meddiannydd yn bwriadu gwerthu'r cartref symudol ac aseinio'r cytundeb (o dan naill ai baragraff 9 neu 10), ac yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i werthwr ei darparu i ddarpar brynwr, ac erbyn pa bryd y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth honno. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu, mewn rheoliadau, y dogfennau /gwybodaeth arall y mae'n rhaid eu darparu. Os yw meddiannydd y methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i ddarparu'r dogfennau neu'r wybodaeth dan sylw o fewn yr amser gofynnol, caiff y darpar brynwr ddwyn achos sifil. Bydd y darpariaethau hyn yn sicrhau bod y darpar brynwr yn meddu'r holl wybodaeth berthnasol (er enghraifft, unrhyw gyfyngiadau yn rheolau'r safle ar bwy gaiff breswyllo ar y safle) ac felly mewn sefyllfa i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch mynd ymlaen â'r pryniant ai peidio.
141. Mae paragraff 12 yn gymwys pan fo'r cytundeb yn gytundeb newydd, ac yn debyg i baragraff 9 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983. Mae'n rhoi hawl i berchennog cartref symudol roi'r cartref symudol yn anrheg i aelod o'i deulu ac aseinio'r cytundeb i'r aelod hwnnw. Fodd bynnag, mae'n dileu'r gofyniad bod perchennog y safle'n cymeradwyo'r person y rhoddir y cartref iddo'n anrheg, ar yr amod bod y meddiannydd wedi darparu tystiolaeth i'r perchennog, fod y person dan sylw yn aelod o deulu'r meddiannydd. Mae'n gwneud yn ofynnol bod y person y rhoddir y cartref symudol iddo yn hysbysu perchennog y safle o'r rhodd ac o aseinio'r cytundeb. Mae'n rhoi pŵer hefyd i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau sy'n pennu'r math o dystiolaeth o gysylltiad teuluol y mae'n rhaid ei chyflenwi ac yn pennu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn gan y partion sy'n ymwneud â rhoi cartref symudol ac aseinio'r cytundeb.
142. Mae paragraff 13 yn gymwys pan nad yw'r cytundeb yn gytundeb newydd ac y mae'n pennu'r broses pan fo meddiannydd yn dymuno rhoi'r cartref symudol i aelod o'i deulu. Rhaid i'r meddiannydd gyflwyno hysbysiad i berchennog y safle i'r perwyl ei fod yn bwriadu rhoi'r cartref symudol yn anrheg. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys enw'r person y mae'n bwriadu rhoi'r cartref symudol iddo a pha bynnag wybodaeth arall a fydd yn ofynnol gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yn ogystal dystiolaeth fel y'i diffinnir ym mharagraff 12(2). O fewn 21 diwrnod, caiff perchennog y safle wneud cais i dribiwnlys am orchymyn sy'n rhwystro'r meddiannydd rhag rhoi'r cartref symudol yn anrheg ("gorchymyn rhwystro"). Os nad yw'n gwneud hynny, neu os yw'r tribiwnlys yn gwrthod y cais, caiff yr anrhegu fynd ymlaen.
143. Mae paragraff 13 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi ar ba sail y caiff perchennog wneud cais i dribiwnlys am orchymyn gwrthod (paragraff 13(7)) ac yn pennu'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan y partion ynglŷn â'r anrhegu (paragraff 13(9)). Gallai'r seiliau y caniateir i berchennog wneud cais arnynt am orchymyn gwrthod gynnwys, er enghraifft, oedran y prynwr neu gadw anifeiliaid anwes, os oes rheolau gan y safle mewn perthynas â materion o'r fath.

140. Paragraph 11 applies where the occupier proposes to sell the mobile home and assign the agreement (under either paragraph 9 or 10) and sets out the information a seller must provide to the prospective purchaser and the time by which that information must be provided. It confers a power on the Welsh Ministers to specify, in regulations, the documents and/or other information which must be provided. Where an occupier fails to comply with the duty to provide these documents and/or information within the required time, the prospective purchaser may bring civil proceedings. These provisions will ensure that the prospective purchaser is aware of all the relevant information (for example, any restrictions in the site rules on who can reside on the site) and so is able to make an informed decision as to whether or not to proceed with the purchase.
141. Paragraph 12 applies where a new agreement is in place and is similar to paragraph 9 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act. It entitles the mobile home owner to give the mobile home and to assign the agreement to a member of his or her family. However, it removes the requirement for the site owner to approve the person to whom the gift is being made, subject to a requirement that the occupier has provided the site owner with evidence showing that the person concerned is a member of his or her family. It requires the person to whom the mobile home is gifted to notify the site owner of the gift and assignment of the agreement. It also confers a power on the Welsh Ministers to make provision in regulations specifying the type of evidence of a family connection that must be supplied and specifying the procedures to be followed by the parties involved with the gift of a mobile home and assignment of the agreement.
142. Paragraph 13 applies where an existing agreement is in place and sets out the process if an occupier wishes to gift the mobile home to a family member. The occupier must serve notice on the owner that he proposes to gift the mobile home. The notice must include the name of the person to whom he proposes to give the mobile home and such other information as may be prescribed in regulations made by the Welsh Ministers. The notice must also include evidence as defined in paragraph 12(2). Within 21 days of when the owner receives the notice of the proposed gift, the site owner may make an application to the tribunal for an order preventing the occupier from gifting the mobile home (“a refusal order”). If he does not, or the tribunal rejects the application, the gift may proceed.
143. Paragraph 13 also confers powers on the Welsh Ministers to make regulations prescribing the grounds on which an owner may apply to the tribunal for a refusal order (paragraph 13(7)) and specifying the procedures to be followed by the parties involved with the gift (paragraph 13(9)). The grounds on which an owner may apply for a refusal order could, for example include the age of the buyer or the keeping of pets, where a site has rules in relation to such matters.



144. Mae paragraff 14 yn ailddatgan ac yn diwygio paragraff 10 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 mewn perthynas ag ail leoli cartref symudol ar lain arall. Gall hyn ddigwydd pan fo Tribiwnlys wedi cytuno bod y llain amnewidiol yn gymaradwy a bod y symudiad yn rhesymol. Os oes angen i berchennog y safle wneud gwaith atgyweirio hanfodol neu waith brys, na ellir ei gyflawni heb symud y cartref symudol i lain arall dros gyfnod y gwaith, ac oherwydd y brys nad yw'n ymarferol gwneud cais i dribiwnlys cyn ail leoli'r cartref, rhaid i'r perchennog safle wneud cais i dribiwnlys ar unwaith. Os na fodlonir y tribiwnlys fod angen ail leoli, rhaid i berchennog y safle ddychwelyd y cartref symudol i'r llain gwreiddiol ar unwaith.
145. Mae paragraff 15 yn ailddatgan paragraff 11 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 Act ac yn gwneud y e is-adran glur fod hawl gan y meddiannydd i fwynhau'r cartref symudol a'r llain yn ddiramgwydd.
146. Mae paragraff 16 yn ailddatgan paragraffau 12 i 15 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 Act ac yn gwneud yn ofynnol bod perchennog y safle yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd o'i fwriad i fynd i mewn i lain (ond nid i gartref symudol), ac eithrio ar gyfer danfon gohebiaeth neu ddarllen mesuryddion, pan nad oes angen rhoi rhybudd, neu ar gyfer gwaith cynnal hanfodol neu atgyweiriadau brys, pan ddylid rhoi cymaint o rybudd ag y bo'n ymarferol.
147. Mae paragraff 17 yn ailddatgan ac yn diwygio paragraffau 16 a 17 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 ac yn pennu'r prosesau ar gyfer adolygu a newid y ffi am y llain. Effaith is-baragraffau (4), (9), (15) ac (16) o paragraff 17 ynghyd â pharagraff 23 (gweler isod) yw gwneud yn ofynnol bod perchennog safle, wrth gyflwyno hysbysiad o adolygiad i feddiannydd cartref symudol sy'n cynnig cynyddu'r ffi am y llain, yn cyflwyno dogfen i'r meddiannydd yr un pryd sy'n bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff 23.
148. Mae is-baragraffau (6)(a) ac (11)(a) o baragraff 17 yn galluogi meddiannydd nad yw'n cytuno â chynnig ynglŷn â'r ffi am y llain i wneud cais i dribiwnlys am orchymyn sy'n penderfynu swm y ffi newydd am y llain. Yn flaenorol, os nad oedd meddiannydd yn cytuno â'r ffi arfaethedig, perchennog y safle yn unig oedd â hawl i wneud cais i'r tribiwnlys am orchymyn yn penderfynu swm y ffi newydd. Mewn rhai amgylchiadau, gall meddiannydd sydd wedi gwrthod cytuno â'r ffi a gynigir fod yn awyddus i ofyn am orchymyn gan y tribiwnlys i benderfynu'r ffi, hyd yn oed os nad yw perchennog y safle wedi gwrthwynebu gwrthodiad y meddiannydd; er enghraifft, os yw'r meddiannydd o'r farn y dylid gostwng y ffi bresennol am y llain.
149. Mae paragraff 18 yn ailddatgan paragraff 18 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 Act ond gyda diwygiadau, ac yn pennu'r materion y mae'n rhaid i berchnogion safle roi sylw penodol iddynt wrth benderfynu swm y ffi newydd am y llain. Mae'r rhain yn cynnwys cost gwelliannau i'r safle neu gost dirywiad yr amwynderau. Mae paragraff 18(1)(d) yn pennu y caiff perchnogion safle gymryd i ystyriaeth, yn unig, yr effaith uniongyrchol ar y costau sy'n daladwy gan y perchennog o ran cynnal a chadw neu reoli'r safle, o ganlyniad i unrhyw ddeddfiad a ddaeth i rym ers dyddiad yr adolygiad blaenorol. Mae paragraff 18(2) yn gwneud yn eglur na chaiff perchnogion safle gymryd i ystyriaeth unrhyw gostau a dynnwyd wrth gydymffurfio â'r gofynion, wrth benderfynu'r ffioedd am y lleiniau.



144. Paragraph 14 restates and amends paragraph 10 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act relating to the re-siting of a mobile home. This may occur where a Tribunal has agreed that the replacement pitch is comparable, and the move reasonable. Where the owner needs to carry out essential repair or emergency works which may only be done if the mobile home is moved to another pitch for that period, and the urgency means it is impracticable to make an application to a tribunal before the mobile home is re-sited, the owner must immediately make an application to a tribunal. If the tribunal is not satisfied of the need to do so, the owner must immediately ensure that the mobile home is returned to the original pitch.
145. Paragraph 15 restates paragraph 11 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act and makes it clear that the occupier has the right to quiet enjoyment of their mobile home and pitch.
146. Paragraph 16 restates paragraphs 12 to 15 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act and sets out the requirement that the site owner gives at least 14 day's notice to enter a pitch (but not a mobile home) except to make deliveries and read meters, when no notice is required, or carry out essential maintenance or emergency repairs, when as much notice as is practicable should be given.
147. Paragraph 17 restates and amends paragraphs 16 and 17 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act and sets out the processes for reviewing and changing pitch fees. The effect of sub-paragraphs (4), (9), (15) and (16) of paragraph 17 together with paragraph 23 (see below) require a site owner, when serving a pitch fee review notice on an occupier of a mobile home which proposes an increase in the pitch fee, to provide the occupier with an accompanying document which meets the requirements set out in paragraph 23.
148. Sub-paragraphs (6)(a) and (11)(a) of paragraph 17 enable an occupier who does not agree to a proposed pitch fee to apply to the tribunal for an order determining the amount of the new pitch fee. Previously, where an occupier did not agree to the proposed pitch fee, it was only the owner who had the right to apply to the tribunal for an order determining the new pitch fee. There may be circumstances in which an occupier who has refused to agree to a proposed new pitch fee wishes to seek an order from the tribunal determining the new pitch fee, even where the site owner has not objected to the occupier's refusal; for instance where the occupier is of the view that the existing pitch fee should be reduced.
149. Paragraph 18 restates paragraph 18 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act but with amendments, and sets out the matters to which site owners must have particular regard when determining the amount of the new pitch fee. These include the cost of site improvements or deterioration of amenities. Paragraph 18(1)(d) specifies that site owners may only take into account any direct effect on the costs payable by the owner in relation to the maintenance or management of the site of any enactment that has come into force since the last review date. Paragraph 18(2) makes clear that site owners may not take into account any costs incurred in complying with the requirements when determining pitch fees.

150. Mae paragraff 19 yn ailddatgan ac yn diwygio paragraff 19(1) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i ddeddf 1983 Act ac yn pennu materion y mae'n rhaid i berchnogion safle eu diystyru wrth benderfynu swm y ffi newydd am y llain. Mae is-baragraff (2) yn gwneud yn eglur na chaiff perchnogion safle gymryd i ystyriaeth unrhyw gostau a dynnir neu ffioedd sy'n daladwy wrth gydymffurfio â'r gofynion a restrir o dan baragraffau (a) to (c) wrth benderfynu'r ffioedd am y lleiniau, gan gynnwys y costau trwyddedu neu gost camau gorfodi a gymerir gan awdurdodau lleol.
151. Mae paragraff 20 yn cynnwys y broses sydd i'w dilyn wrth ystyried newid yn y ffi am y llain, boed yn gynydd neu'n ostyngiad ac yn pennu bod rhaid defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.
152. Mae paragraff 21 yn pennu rhwymedigaethau perchennog y safle a rhwymedigaethau cyfatebol y meddianwyr, gan gynnwys talu'r ffioedd gofynnol ac am gyfleustodau fel a gytunwyd gyda'r perchennog, a sicrhau bod y cartref symudol a'r llain o'i amgylch mewn cyflwr da a thrwsiadus. Mae'n gosod rhwymedigaethau ar y perchennog hefyd i beidio â gwneud unrhyw beth, neu beri i unrhyw beth gael ei wneud, a allai effeithio'n anffafriol ar allu'r meddiannydd i gyflawni ei rwymedigaethau o dan baragraff 21(1)(c) neu (1)(d), a allai atal y meddiannydd rhag gwneud gwelliannau mewnlol neu allanol i'r cartref symudol, neu ymyrryd â gallu'r meddiannydd i wneud hynny. Nid yw'n awdurdodi'r meddiannydd i wneud unrhyw waith ar y cartref symudol a waherddir gan delerau'r cytundeb neu o dan unrhyw ddeddfiad. Os yw'r cytundeb yn caniatáu gwneud gwaith ar y cartref symudol gyda chaniatâd perchennog y safle rhaid peidio â gwrthod y caniatâd hwnnw yn afresymol.
153. Mae paragraffau 22 yn gosod rhwymedigaethau pellach ar berchennog y safle mewn perthynas â'r llain, darparu gwybodaeth megis y sail ar gyfer codi tâl am gyfleustodau ac am gynnal y cyfleustodau, a gyflenwir i'r lleiniau ac i'r manau cymunol ar y safle. Rhaid i'r perchennog ymgynghori hefyd gyda'r meddianwyr a'r gymdeithas trigolion ar bob mater ynglŷn â gweithredu a rheoli'r safle, gan gynnwys unrhyw gynnig i newid y defnydd o'r safle.
154. Mae paragraff 23 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn rheoliadau, ragnodi ffurf y ddogfen ffioedd llain. Os yw perchennog y safle'n methu â darparu'r ddogfen honno, ni fydd yr hysbysiad sy'n cynnig cynyddu'r ffi am y llain yn cael effaith; ac mewn achosion pan fo meddiannydd, er gwaethaf hynny, wedi dechrau talu ffi uwch i'r perchennog am y llain, caiff y tribiwnlys (sef Tribiwnlys Eiddo Preswyl neu, os oes un, y cyflafareddwr mewn perthynas â'r cytundeb) orchymyn (ar gais y meddiannydd) bod y perchennog yn ad-dalu'r gordaliad.
155. Mae paragraffau 24 a 25 yn pennu bod dyletswyddau ar y perchennog i hysbysu'r preswylwyr a'r gymdeithas trigolion gymwys o'r cyfeiriad lle y gellir cyflwyno hysbysladau i'r perchennog at y diben o ymdrin â ffioedd llain a thaliadau.

150. Paragraph 19 restates and amends paragraph 19(1) of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act and sets out matters which site owners must disregard when determining the amount of the new pitch fee. Sub-paragraph (2) make clear that site owners may not take into account any costs incurred or fees payable in complying with those requirements listed under paragraphs (a) to (c) when determining pitch fees, including the costs of licensing or enforcement actions taken by local authorities.
151. Paragraph 20 contains the process to be used when considering a revision to the pitch fee, either an increase or decrease, and that the consumer prices index is to be used.
152. Paragraph 21 sets out the owner's obligations and corresponding obligations of the occupiers including paying the required fees and utilities as agreed with the owner and ensuring the mobile home and the surrounding pitch are in a sound state of repair. It also sets out the owner's obligations to not do anything or causing anything to be done which may adversely affect the occupier's ability to perform their obligations under paragraph 21(1)(c) or (1)(d), which may deter the occupier from making internal or external improvements to the mobile home or interfere with the occupier's ability to do so. It does not authorise the occupier to carry out works to the mobile home which are prohibited by the terms of the agreement or under any enactment. Where the agreement permits work to the mobile home with the owner's permission, that permission must not be unreasonably withheld.
153. Paragraphs 22 sets out further obligations of the owner in regard to the pitch, providing information such as the basis for utility charges and maintaining the utilities supplied to the pitch and the common parts of the site. The owner must also consult with occupiers and the residents' association on all matters relating to the operation and management etc. of the site, including any proposed change of use of the site.
154. Paragraph 23 confers a power on the Welsh Ministers to prescribe the form of the pitch fee document in regulations. Where the site owner fails to provide that document, the notice which proposes the increase in the pitch fee has no effect; and in cases where an occupier has, nonetheless, begun to pay the increased pitch fee to the owner, the tribunal (a Residential Property Tribunal, or where there is one, the arbitrator in respect of the agreement) may (on the application of the occupier) order the owner to repay the overpayment.
155. Paragraphs 24 and 25 set out the obligations on the owner to notify the residents and the qualifying residents' association of the address at which notices may be served on the owner, for the purposes of dealing with pitch fees and payments.

156. Mae Penodau 3 a 4 o Ran 1 o Atodlen 2 yn adlewyrchu newidiadau diwedd a wnaed yng Nghymru yn Atodlen 1 i Ddeddf 1983, gan Orchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013 a ddaeth i rym ar 10 Gorffennaf 2013 ("Gorchymyn 2013"). Roedd Gorchymyn 2013 yn cyflwyno gwahanol delerau ymhlyg o dan Atodlen 1 i Ddeddf 1983 Act ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yr awdurdodau lleol. Diwygiadau eraill a wnaed oedd cyfyngu ar yr hawl i aseinio lleiniau rhag creu marchnad yn y lleiniau, rheoleiddio adolygiadau o'r ffioedd llain, a gwella'r eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol sy'n berchnogion ar safleoedd o'r fath. Gyda chychwyn adran 318 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p. 17) ar 10 Gorffennaf 2013, diddymwyd yr eithriad a oedd yn allgáu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yr awdurdodau lleol o ddarpariaethau Deddf 1983. O ganlyniad daethant yn "safleoedd gwarchoddedig" at ddibenion adran 5(1) o'r Ddeddf honno, gan roi gwell sicrwydd daliadaeth i'r meddianwyr ynghyd â hawliau eraill mewn perthynas â meddiannu safleoedd o'r fath. Adlewyrchir y diwygiadau hyn ym Mhenodau 3 a 4 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

### **Pennod 3 - Cytundebau sy'n ymwneud a lleiniau tramwy ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol**

157. Mae paragraffau 27 i 30 yn pennu'r telerau mewn perthynas â pharhad cytundebau a therfynu cytundebau ynghylch lleiniau tramwy ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yr awdurdodau lleol. Caiff perchennog y safle derfynu cytundebau ar y lleiniau hyn drwy roi 4 wythnos o rybudd ysgrifenedig. Pan derfynir cytundeb, caiff y meddiannydd hawlio ad-daliad o unrhyw ffioedd a ordalwyd.
158. Mae paragraffau 31 a 32 yn pennu bod hawl gan feddianwyr lleiniau tramwy i fwynhau'r llain yn ddidramgwydd, ac yn sefydlu rheolau ynglŷn â pha bryd y caiff perchennogion safle fynd i mewn i'r llain, ond nid y cartref symudol, gan roi rhybudd neu hebdo.
159. Mae paragraffau 33 a 34 yn pennu bod dyletswyddau ar y perchennog i hysbysu'r preswylwyr o'r cyfeiriad lle y gellir cyflwyno hysbysiadau i'r perchennog at y diben o ymdrin â ffioedd llain a thaliadau.

### **Pennod 4 - Cytundebau sy'n ymwneud a lleiniau parhaol ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

160. Mae paragraffau 36 i 40 yn pennu'r telerau mewn perthynas â pharhad cytundebau a therfynu cytundebau ynghylch lleiniau parhaol ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yr awdurdodau lleol. Caiff y meddiannydd derfynu cytundebau ynghylch y lleiniau hyn drwy roi 4 wythnos o rybudd ysgrifenedig. Caiff y perchennog derfynu'r cytundeb mewn rhai amgylchiadau drwy wneud cais i'r corff barnwrol priodol.
161. Mae paragraffau 41 a 42 yn pennu'r hawl aseinio cyfyngedig a fydd yn gymwys i feddianwyr lleiniau ar y safleoedd hyn. Caiff meddianwyr aseinio'u cytundeb i aelod o'r teulu, neu gyfnewid gyda meddianwyr eraill ar y safle gyda chymeradwyaeth perchennog y safle. Os yw perchennog y safle'n gwrthod cymeradwyo'r aseiniad, caiff meddiannydd apelio at dribiwnlys am orchymyn yn caniatáu'r aseiniad.

156. Chapters 3 and 4 of Part 1 of Schedule 2 reflect recent changes made in Wales to Schedule 1 of the 1983 Act by the Mobile Homes Act 1983 (Amendment of Schedule 1 and Consequential Amendments) (Wales) Order 2013 which came into force on 10 July 2013 (“the 2013 Order”). The 2013 Order introduced different implied terms under Schedule 1 of the 1983 Act for local authority Gypsy and Traveller sites. Other amendments include limiting the right of assignment of pitches to prevent the creation of a market in pitches, regulation of pitch fee reviews, and greater clarity on the responsibilities of local authority site owners in respect of such sites. The commencement of section 318 of the Housing and Regeneration Act 2008 (c. 17) on 10 July 2013 removed the exclusion of local authority Gypsy and Traveller sites from the provisions of the 1983 Act so that they became “protected sites” for the purposes of section 5(1) of that Act, giving the occupier greater security of tenure and other rights in occupying local authority Gypsy and Traveller sites. These amendments are reflected in Chapters 3 and 4 of Part 1 of Schedule 2 of the Act.

### **Chapter 3 – Agreements relating to transit pitches on local authority Gypsy and Traveller sites**

157. Paragraphs 27 to 30 set out the terms in relation to duration and termination of agreements on local authority Gypsy and Traveller transit pitches. Agreements on these pitches can be terminated by the site owner with 4 weeks written notice. Where agreements are terminated, occupiers can claim back any overpayment of fees.
158. Paragraphs 31 and 32 set out that transit pitch occupiers have a right to quiet enjoyment of the pitch and establish rules when site owners can enter the pitch, but not the mobile home, with or without notice.
159. Paragraphs 33 and 34 set out the obligations on the owner to notify the residents of the address at which notices may be served on the owner, for the purposes of dealing with pitch fees and payments.

### **Chapter 4 – Agreements relating to permanent pitches on gypsy and traveller sites**

160. Paragraphs 36 to 40 set out the terms in relation to duration and termination of agreements on local authority Gypsy and Traveller permanent pitches. Agreements on these pitches can be terminated by the occupier by giving 4 weeks notice. The owner can terminate the agreement by applying to the appropriate judicial body in certain circumstances.
161. Paragraphs 41 and 42 set out the limited right of assignment that will apply to pitch occupiers on these sites. Occupiers may assign their agreement to a family member, or exchange with other site occupiers with the approval of the site owner. If the owner declines to agree the assignment the occupier may apply to a tribunal for an order allowing the assignment.



162. Mae paragraff 44 yn pennu, pan fo angen i berchennog y safle ail leoli llain parhaol, fod rhaid i unrhyw lain amgen a gynigir fod yn lled gymaradwy â'r llain gwreiddiol. Os bydd angen i berchennog y safle wneud gwaith hanfodol na ellir ei gyflawni heb symud y cartref symudol, perchennog y safle fydd yn atebol am dalu'r holl gostau a threuliau a fydd yn codi o ganlyniad i symud y cartref ar gyfer gwneud y gwaith.
163. Mae paragraffau 45 a 46 yn pennu bod hawl gan feddianwyr lleiniau hyn i'w mwynhau'r llain yn ddidramgwydd, ac yn pennu pa bryd y caiff perchennog safle fynd i mewn i'r llain heb roi rhybudd. Nid yw hyn yn ymestyn i'r cartref symudol ei hunan.
164. Mae paragraffau 47 i 50 yn pennu'r weithdrefn ar gyfer cyfrifo a newid y ffi am y llain. Mae hyn yn cynnwys yr adegau yr adolygir y ffioedd llain, y dull o ymgynghori, a'r broses ar gyfer apêl gan y perchennog neu'r meddiannydd at y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, os digwydd iddynt anghytuno â'r ffi llain a gynigir. Mae'r adolygiad o'r ffi llain, a'r rhagdybiaeth y gellir cynyddu neu ostwng ffioedd llain yn flynyddol, yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.
165. Mae paragraff 51 yn pennu rhwymedigaethau'r meddiannydd, sy'n cynnwys talu'r ffi llain a chadw'r cartref symudol mewn cyflwr da a thrwsiadus.
166. Mae paragraff 52 yn pennu rhwymedigaethau'r perchennog, sy'n cynnwys cyflawni atgyweiriadau a gwaith cynnal, ymgynghori â phreswylwyr y safle a darparu gwybodaeth
167. Mae paragraffau 53 a 54 yn pennu bod dyletswyddau ar y perchennog i hysbysu'r preswylwyr o'r cyfeiriad lle y gellir cyflwyno hysbysiadau i'r perchennog at y diben o ymdrin â ffioedd llain a thaliadau.

## **Rhan 2 - Materion y caniateir i delerau gael eu hymhlygu yn eu cylch gan y corff barnwrol priodol**

168. Mae paragraffau 55 i 58 yn ailddatgan Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 ac yn pennu'r telerau y caniateir eu hymhlygu "y corff barnwrol priodol". Diffinnir "y corff barnwrol priodol" o dan adran 55(1) o Ddeddf Tai Symudol (Cymru) 2013.

## **Atodlen 3 - Darpariaethau pellach ynghylch gorchmynion sy'n ymwneud â thir comin**

169. Cyflwynir Atodlen 3 gan adran 57, ac mae'n ailddatgan Atodlen 2 i Ddeddf 1960. Mae'n gwneud darpariaethau pellach ynghlŷn â gorchmynion mewn perthynas â thiroedd comin.

## **Atodlen 4 - Diwygiadau canlyniadol**

170. Mae Atodlen 4 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol.

## **Atodlen 5 - Darpariaethau trosiannol a darfodol ac arbedion**

171. Mae Atodlen 5 yn cynnwys darpariaethau trosiannol a darfodol ac arbedion. Mae Paragraff 2 yn pennu y bydd y trwyddedau safle presennol a ddyroddwyd o dan Ddeddf 1960 ac a fydd mewn grym pan daw Rhan 2 o'r Ddeddf i rym yn parhau tan ddiwedd "y cyfnod cychwynnol", sef y cyfnod o 6 mis sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y daw Rhan 2 i rym.



162. Paragraph 44 sets out that if a permanent pitch needs to be re-sited by the site owner a suggested alternative pitch must be broadly comparable to the original pitch. Should the site owner need to carry out essential works that can only be carried out if the mobile home is moved, the site owner is liable to pay all the costs and expenses as a result of the mobile homes being moved due to works.
163. Paragraphs 45 and 46 set out that occupiers of these pitches have a right to quiet enjoyment of the pitch and sets out when a site owner may enter the pitch without giving notice. This does not extend to the mobile home.
164. Paragraphs 47 to 50 set out the procedure for calculating and changing the pitch fee. This includes when pitch fees are to be reviewed, including consultation, and the process for appeal by owner or occupier to the Residential Property Tribunal, should they disagree with the proposed pitch fee. The pitch fee review and presumption that pitch fees can be increased or decreased annually is based on the Consumer Prices Index.
165. Paragraph 51 sets out the occupier's obligations, including paying the pitch fee and keeping the mobile home in a sound state of repair.
166. Paragraph 52 sets out the owner's obligations, including undertaking repairs and maintenance, consulting site residents, and providing information.
167. Paragraphs 53 and 54 set out the obligations on the owner to notify the residents of the address at which notices may be served on the owner, for the purposes of dealing with pitch fees and payments.

## **Part 2 – Matters concerning which terms may be implied by the appropriate judicial body**

168. Paragraphs 55 to 58 restate Part 2 of Schedule 1 to the 1983 Act and set out the terms which may be implied by "the appropriate judicial body". "The appropriate judicial body" is defined under section 55(1) of the Mobile Homes (Wales) Act 2013.

## **Schedule 3 – Further provision about orders relating to commons**

169. Schedule 3 is introduced by section 57 and restates Schedule 2 of the 1960 Act. It makes further provisions about orders relating to commons.

## **Schedule 4 – Consequential amendments**

170. Schedule 4 contains consequential amendments to primary legislation.

## **Schedule 5 – Transitional and transitory provisions and savings**

171. Schedule 5 contains transitional, transitory provisions and savings. Paragraph 2 sets out the position whereby existing site licences issued under the 1960 Act which are in force on the coming into force of Part 2 of the Act will continue until the end of "the initial period," i.e. the 6 month period starting with the day on which Part 2 comes into force.

## **COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

172. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: <http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=4729>

<b>Cyfnod</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyflwynwyd	24 Hydref 2012
Cyfnod 1 - Dadl	13 Mawrth 2013
Cyfnod 2 - Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	13 Mehefin 2013
Cyfnod 3 - Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	10 Gorffennaf 2013
Cyfnod Adrodd	25 Medi 2013
Cyfnod 4 - Cymeradwywyd gan y Cynulliad	25 Medi 2013
Y Cydsyniad Brenhinol	4 Tachwedd 2013

---

©Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## **RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

172. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: <http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IIId=4729>

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	24 <sup>th</sup> October 2012
Stage 1 - Debate	13 <sup>th</sup> March 2013
Stage 2 - Scrutiny Committee - consideration of amendments	13 <sup>th</sup> June 2013
Stage 3 - Plenary - consideration of amendments	10 <sup>th</sup> July 2013
Report Stage	25 <sup>th</sup> September 2013
Stage 4 - Approved by the Assembly	25 <sup>th</sup> September 2013
Royal Assent	4 <sup>th</sup> November 2013

---

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:

**Ar-lein**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Testun: 0870 240 3701

**Y Llyfrfa**

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)

Rhyngwrwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office) and available from:**

**Online**

[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

General enquiries: 0870 600 5522

Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474

Fax orders: 0870 600 5533

Email: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

Telephone orders: 020 7219 3890

General enquiries: 020 7219 3890

Fax orders: 020 7219 3866

Email: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)

Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-10534-6



9 780348 105346